

SIR FYNWY

MONMOUTHSHIRE



Cynllun Lles Drafft Bwrdd  
y Gwasanaethau  
Cyhoeddus Sir Fynwy

MON  
MOUTH  
SHIRE

# Rheoli Fersiynau

---

Teitl	Cynllun Llesiant Drafft Sir Fynwy
Pwrpas	Mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus dan les Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol ddod ynghyd fel Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus a gosod amcanion Llesiant ar gyfer Sir Fynwy a amlinellir yn y cynllun hwn.
Perchennog	Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus
Cymeradwywyd gan	Drafft ar gyfer cymeradwyaeth
Dyddiad	Tachwedd 2017
Rhif y Fersiwn	2.0
Statws	Drafft
Amledd Adolygu	Yn flynyddol
Dyddiad adolygiad nesaf	Ebrill 2018
Ymgynghoriad	13 <sup>eg</sup> Tachwedd 2017 i 7 <sup>ed</sup> Chwefror 2018

Mae'r Cynllun Llesiant ar gael yn y Saesneg a'r Gymraeg. I gael cipolwg ar y ddogfen, [www.monmouthshire.gov.uk/our-monmouthshire](http://www.monmouthshire.gov.uk/our-monmouthshire)

Mae'r ddogfen hon allan ar gyfer ymgynghoriad sy'n dod i ben ar 7<sup>ed</sup> Chwefror 2018.

Mae gennym ddiddordeb arbennig yn eich meddyliau a'ch safbwyntiau ar y cynnwys. Gallwch gyfrannu mewn nifer o ffyrdd:

- Cwblhewch, os gwelwch yn dda, yr arolwg ar [www.monmouthshire.gov.uk/our-monmouthshire](http://www.monmouthshire.gov.uk/our-monmouthshire)
- Gallwch hefyd rannu'ch meddyliau ar [Monmouthshire Made Open](#)
- E-bost [improvement@monmouthshire.gov.uk](mailto:improvement@monmouthshire.gov.uk)
- Ysgrifennwch at: Y Tîm Polisi a Pherfformiad, Cyngor Sir Fynwy, Neuadd y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, Sir Fynwy, NP15 1GA



Partneriaid Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Fynwy:



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Aneurin Bevan  
University Health Board



monmouthshire  
sir fynwy



Cyfoeth  
Naturiol  
Cymru  
Natural  
Resources  
Wales

South Wales  
Fire and Rescue Service



Gwasanaeth Tân ac Achub  
De Cymru

melin  
together we can...

MHA  
Monmouthshire Housing  
Tai Sir Fynwy



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Iechyd Cyhoeddus  
Cymru  
Public Health  
Wales



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Cymdeithas  
Mudiadau  
Gwirfoddol  
Gwent



Gwent  
Association of  
Voluntary  
Organisations

Rhif Elusen Gofrestredig / Registered Charity Number: 1113558  
Cwmni Cyfyngedig Drwy Warant / Company Limited By Guarantee: 5590517

# Cynnwys

---

Rheoli Fersiynau	2
Cynnwys	4
Rhagair	6
Paham Cynllun Llesiant?	
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	7
Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus	7
Craffu ByGC	8
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol	8
Sut mae'r Cynllun Llesiant yn cysylltu â phethau eraill sy'n digwydd yn Sir Fynwy?	
Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus a Phartneriaethau yn Sir Fynwy	8
Cynghorau Tref a Chymuned	9
Sir Fynwy'r Dyfodol	9
Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant	9
Deddfwriaeth Arall	10
Cwrdd â dyletswyddau statudol eraill	11
Datblygu'r Asesiad Llesiant	12
Heriau a Chyfleoedd yr asesiad Llesiant	12
Tymor byr	12
Tymor canolig	13
Tymor hir	
O asesiad Llesiant i amcanion Llesiant i weithredu	15
Amcanion Llesiant Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus	17
Cymhwyso'r Pum Ffordd o Weithio	17
Tymor Hir	17
Cydweithredu	
Ymgysylltu	18
Atal	19
Egluro'r amcanion	19
Amcan Llesiant - Darparu'r dechrau gorau posib mewn bywyd i blant a phobl ifanc	20
Amcan Llesiant - Ymateb i'r heriau sy'n gysylltiedig â newid demograffig	22
Amcan Llesiant - Amddiffyn a gwella gwytnwch ein hamgylchedd naturiol tra rhwystrir ac addasir i effaith newid hinsawdd	24

Amcan Llesiant - Datblygu cyfleoedd i gymunedau a busnesau fod yn rhan o sir sydd â chysylltiadau da ac sy'n ffynnu'n economaidd.	26
Gwerthuso ac Adolygu	28
Dangosyddion Cenedlaethol	28
Mesur Llesiant Cymunedau Hapus	29
Cofnodi perfformiad a graddfeydd amser	29
Beth sy'n Digwydd Nesaf?	30
Datblygu'r Cynllun Llesiant ymhellach	30
Gweithio gyda'n gilydd yn well fel ByGC i wneud i'r amcanion ddigwydd	30
Y Broses ymgynghori	31
Atodiad 1 - Strwythur partneriaeth	32
Atodiad 2 - Datblygu'r Aseiad Llesiant	33
Proffil Sir Fynwy	33
Cymunedau Sir Fynwy	33
Aseiad Llesiant	34
Atodiad 3 - Methodoleg ar gyfer datblygu'r Cynllun Llesiant	36
O aseiad Llesiant i amcanion Llesiant	37
O amcanion Llesiant i weithredu	39
Atodiad - Ystyried yr Amcanion Posib	41
Atodiad 5 - Cymharu amcanion Llesiant partneriaid ByGC	42
Cyfeirnodau	45



# Rhagair

---

*“Never doubt that a small group of thoughtful, committed, citizens can change the world. Indeed, it is the only thing that ever has.”*

Margaret Mead

Mae Sir Fynwy'n lle anhygoel wedi'i fendithio â phobl ardderchog a chymunedau cadarn. Mae e'r math o le mae pobl yn dymuno treulio amser ynddo am ei bod yn hyfryd yma. Mae hefyd yn lle sy'n wynebu heriau -nawr ac yn y dyfodol. Mae'n rhaid i ni ddygymod â phrisiau tai nad ydynt yn fforddiadwy i bob teulu, anghydraddoldebau incwm a chyfoeth, trafndiaeth gyhoeddus wael ac anawsterau cael mynediad i'r byd digidol. Ni chaiff methiant yn y farchnad, o fewn cyd-destun gwledig, lawer o benawdau yn y wasg ond mae'n real a chaiff effaith ar ein bywydau. Edrychwn ymlaen at fyw'n hwy a disgwyliwn weld mwy o faterion yn ymwneud â newid hinsawdd. Mae'r rhain yn wir yn bethau cymhleth. Mae angen i ni eu hwynebu os ydym am weld gwell dyfodol i ni'n hunain a'n plant.

Datblygwyd y Cynllun Llesiant hwn yn seiliedig ar dystiolaeth yn tarddu o ymgysylltu eang â phobl a grwpiau ar draws Sir Fynwy. Yn ychwanegol, rydym wedi dadansoddi ystod eang o ddata, adroddiadau ac astudiaethau academiaidd i'n helpu i ddeall lesiant ac ymgodymu â rhai o'r cyfleoedd a'r heriau mwyaf sy'n wynebu'r sir. Rydym yn gwybod na allwn ysgwyddo popeth felly roeddem eisiau bod yn hollol sicr ein bod yn ysgwyddo'r pethau hynny sydd o wir bwys i chi.

Nid cynllun i ddelio â phethau hawdd mo hwn nac i gofnodi prosiectau ticio'r blychau mae sefydliadau unigol yn alluog i gyflenwi ar eu pennau eu hunain. Mae'r cynllun hwn yn ymwneud â'r pethau anodd. Mae'r pethau tymor hir yn anodd eu cychwyn ac yn anos eu cynnal. Y pethau y mae angen i wasanaethau cyhoeddus ddod ynghyd er mwyn gweithredu ar eich rhan. Fe wyddom na fydd hyn yn berffaith a derbyniwn y bydd cyfleoedd newydd yn codi. Fe fyddwn yn agored i newid a byddwn yn parhau i wynebu arferion a syniadau fydd yn datblygu o gwmpas y byd.

Ond uwchlaw popeth arall, mae'r cynllun hwn yn alwad i weithredu ar eich rhan. Caiff yr hyn a wna effaith ar eich teuluoedd, eich pentrefi a'ch trefi ac ar eich ceraint. Mae dyddiau derbyn yn oddefol wasanaethau a gyllidir gan y wladwriaeth wedi darfod. Rydym yn gofyn i chi ymuno gyda ni a gwneud cyfraniad. Rydym yn gofyn i chi gynnig yn ôl i'ch cymunedau'r hyn rydych chi mewn safle unigryw i gynnig. Rydym yn gofyn i chi ymuno gyda ni a'n helpu i osod llwybr i'r sir brydferth hon fel y dechreuwn feddwl am yr 22ain ganrif. Nid ydym yn gofyn am fwy nag y gallwch ei gynnig na'n fodlon ei gynnig. Gyda'n gilydd gallwn greu'r amodau i Sir Fynwy barhau i fod yn lle o *'gymunedau cynaliadwy, cydnorth'*.

Mae'r cynllun allan ar gyfer ymgynghori rhwng nawr a'r 7<sup>fed</sup> Chwefror 2018. Rhowch wybod i ni, os gwelwch yn dda, beth ydych chi'n ei feddwl a rhannwch eich syniadau ynghylch y modd y gallwn weithio gyda'n gilydd i adeiladu beth ydym ni gyd yn dymuno'i weld.

**Paul Matthews**

**Cadeirydd Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Fynwy**


# Paham Cynllun Llesiant?

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Yn Ebrill 2016 cyflwynodd Llywodraeth Cymru'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r darn arloesol hwn o ddeddfwriaeth ynghylch gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ein cenedl, ein sir a'r cymunedau sy'n ei gwneud yr hyn ydyw.

Mae'r Ddeddf yn amlinellu fel mae angen i'r gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru feddwl mwy am y tymor hir, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a gyda'i gilydd, edrych i atal problemau a chymryd agwedd fwy cydgyssylltiedig. Cyfeirir at y rhain fel y pum ffordd o weithio. Wrth weithredu yn y modd hwn, mae gennym well cyfle i greu lle rydym ni gyd eisiau byw ynddo, nawr ac yn y dyfodol.

Er mwyn gwneud yn siŵr bod yr holl wasanaethau cyhoeddus yn gweithio tuag at yr un weledigaeth, mae'r Ddeddf yn gosod yn eu lle'r saith amcan llesiant y gallwch eu gweld yn Ffigur 1.



Mae angen i'r cyrff cyhoeddus a glymir gan y Ddeddf osod eu hamcanion llesiant eu hunain erbyn 31 Mawrth bob blwyddyn. Mae'n rhaid iddynt hefyd ddod ynghyd fel Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus a gosod amcanion llesiant ar gyfer y sir gyfan a amlinellir yn y cynllun hwn. Gwneir hyn bob pum mlynedd.

## Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus

Pedwar aelod statudol Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus (ByGC) yw'r Awdurdod Lleol, y Bwrdd Iechyd Lleol, yr Awdurdod Tân ac Achub a Chyfoeth Naturiol Cymru. Gwahoddir sefydliadau eraill yn ogystal; yn Sir Fynwy mae'r rhain yn cynnwys Iechyd Cyhoeddus Cymru, Heddlu Gwent, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gyfer Gwent, Cymdeithas Tai Sir Fynwy, Cartrefi Melin a'r sefydliadau gwirfoddol a gynrychiolir drwy Gymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent. Mae'n rhaid i Fyrddau'r Gwasanaethau Cyhoeddus baratoi a chyhoeddi asesiad o lesiant lleol, cynhyrchu cynllun llesiant ac adrodd yn flynyddol ar ei gynnydd. Dyma gynllun llesiant cyntaf Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Fynwy ac mae'n gosod yr amcanion y bydd holl aelodau Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus yn ymrwymo iddynt wrth ymdrechu i'w cyflawni.

Mae ByGC yn atebol mewn sawl ffordd, gan gynnwys drwy Bwyllgor Dethol ymroddedig a thrwy fewnbwn Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, a ddisgrifir yn fanylach isod.

## **Craffu ByGC**

Rhoddwyd i Lywodraeth Leol y cyfle i graffu ByGC a sicrhau y cymhwysir egwyddorion Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol i unrhyw bolisi neu benderfyniad a gymerir ar draws Sir Fynwy.

Sefydlodd Cyngor Sir Fynwy Bwyllgor Dethol ByGC ym Mehefin 2016, ac maent wedi craffu gwaith ByGC ers y cychwyn.

Bu gan y Pwyllgor Dethol ran allweddol i'w chwarae wrth herio llymder y prosesau a gymerwyd i ddatblygu'r Asesiad a'r Cynllun Llesiant.

Cyfarfu aelodau'r Pwyllgor dwywaith rhwng gweithdy ByGC yn Chwefror 2017 lle dechreuodd ByGC ddadansoddi'r heriau a'r cyfleoedd a gododd o'r Asesiad Llesiant a mabwysiadu'r cynllun yn derfynol ar ddiwedd Mawrth 2017. Roedd y Pwyllgor Dethol hefyd yn eiddgar i sicrhau bod holl bartneriaid ByGC yn cyfrannu'n gyfartal i'r broses, a bod y dystiolaeth yn yr Asesiad Llesiant wedi bod yn gadarn.

Yn dilyn etholiadau llywodraeth leol ym Mai, etholwyd nifer o aelodau newydd. I sicrhau bod aelodau'r Pwyllgor Dethol yn deal eu swyddogaeth, cyflwynwyd hyfforddiant ar y Ddeddf i aelodau newydd ym Mehefin, a hyfforddiant teilwredig mwy penodol i aelodau'r Pwyllgor Dethol yng Ngorffennaf 2017.

## **Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol**

Dyletswydd gyffredinol Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer Cymru yw hyrwyddo egwyddor datblygiad cynaliadwy (y pum ffordd o weithio), a gweithredu fel gwarcheidwad o allu cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'u hanghenion, drwy annog cyrff cyhoeddus i ystyried yn fwy difrifol effaith tymor hir yr hyn maent yn ei wneud.

Rhoddodd y Comisiynydd adborth manwl ar yr Asesiad Llesiant sydd wedi trwytho datblygiad y Cynllun Llesiant. Bu hefyd drafodaeth a sgwrs 16 wythnos gyda'r Comisiynydd yn ystod datblygu'r Cynllun. Ar ddiwedd y broses hon darparodd y Comisiynydd gyngor ar y ffordd i gymryd camau i gwrdd â'r amcanion lleol a amlinellir yn y cynllun mewn modd sy'n gyson ag egwyddor datblygiad cynaliadwy. Cymerodd y Cynllun y cyngor hwn i ystyriaeth.

## **Sut mae'r Cynllun Llesiant yn cysylltu â phethau eraill sy'n digwydd yn Sir Fynwy?**

### **Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus a Phartneriaethau yn Sir Fynwy**

Mae'r tirlun partneriaethau yn Sir Fynwy'n cofleidio'n llawn weithio amlasiantaethol, gyda chynrychiolaeth o ystod eang o sefydliadau partner, gan gynnwys y trydydd sector, sy'n cydweithio i wella'r canlyniadau ar gyfer preswylwyr Sir Fynwy. Mae Atodiad 1 yn amlinellu strwythur presennol gweithio mewn partneriaeth dan Fwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus.

Mae'r partneriaethau wedi bod yn gysylltiedig â datblygu'r amcanion gan gyfrannu'u safbwyntiau ar faterion allweddol y mae angen i Fwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus fod yn ymwybodol ohonynt i drwytho'u datblygiad o'r Cynllun Llesiant. Bydd cydweithredu a gweithio mewn partneriaeth yn parhau i ffurfio rhan bwysig o'r mecanwaith cyflenwi ar draws y sir a bydd y partneriaethau'n hanfodol wrth gyflawni amcanion ByGC. Cyflwynwyd gwybodaeth deilwredig o



ganlyniadau'r asesiad llesiant i'n partneriaethau a maes penodol o'r ffocws ar eu themâu. Mae'n hanfodol o fewn Sir Fynwy fod ein partneriaethau amlasiantaethol yn parhau i gael swyddogaeth wrth gymryd camau i fynd i'r afael â materion allweddol a'r cyfleoedd y tynnir sylw atynt yn yr asesiad llesiant, hwyrach na fydd rhai ohonynt yn ymwneud â chyflenwi'n uniongyrchol tuag at amcanion ByGC, ond deil i fynd i'r afael â hwy a gallent gyfrannu fel mae'r gwaith yn mynd rhagddo.

## **Cynghorau Tref a Chymuned**

Mae 4 Cyngor Tref o fewn Sir Fynwy sy'n cwrdd â meini prawf y Ddeddf : Cynghorau Tref Y Fenni, Cil-y-coed, Cas-gwent a Threfynwy. Golyga hyn fod yn rhaid iddynt gymryd "camau rhesymol" i gwrdd â'r amcanion yn y Cynllun Llesiant hwn ac adrodd ar gynnydd yn flynyddol. Gwahoddwyd y Cynghorau Tref hyn i gymryd rhan yng ngweithdy ByGC a gynhaliwyd ym mis Hydref 2017 er mwyn helpu i ddatblygu'r Cynllun. Mae ByGC yn gwerthfawrogi'u mewnbwn i mewn i'r broses hon ac roedd eisiau sicrhau bod gan y Cynghorau Tref sy'n bartneriaid i ni syniad cynnar o'r themâu tebygol y disgwylir iddynt gyfrannu atynt.

Mae ByGC yn cydnabod y cyfraniad gwerthfawr mae'r holl Gyngorau Tref a Chymuned yn ei gyflawni o fewn ein cymunedau ac mae ByGC yn ymchwilio i bob cyfle i weithio gyda Chynghorau Tref a Chymuned i gyflawni'r amcanion Llesiant. Mae'n rhaid ymgynghori â phob Cyngor Tref a Chymuned ar yr Asesiad a'r Cynllun Llesiant ac fe'u hanogir i ystyried fel y gallant gyfrannu at gwrdd ag amcanion y Cynllun.

## **Sir Fynwy'r Dyfodol**

Dyluniwyd rhaglen Sir Fynwy'r Dyfodol i alinio gydag egwyddor ion Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol. Fe'i harweinigir gan Gyngor Sir Fynwy ac fe'i cytunwyd gan bartneriaid eraill ByGC i ffurfio rhan o'i meddylfryd fel y datblyga amcanion llesiant a'r camau y bydd yn eu cymryd i gwrdd â'r rhain, gan gydnabod yr angen i gydweithio er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn sy'n cael eu clustnodi. Mae'r rhaglen yn defnyddio dulliau a phrosesau ac yn denu i mewn arbenigedd i edrych ar y modd y gall y Sir barhau'n berthnasol ac yn hyfyw ar gyfer y genhedlaeth nesaf yn y tymor canolig i hir. Bydd hyn yn golygu cadw'n llygaid ar agor a'n pennau i fyny i fabwysiadu rhai o'r atebion newydd o gwmpas y DU a'r byd ehangach a allai weithio yma yn Sir Fynwy, tra rydym yn dal i gwrdd ag anghenion preswylwyr, ymwelwyr a busnesau yn y cyfnod presennol

## **Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Ddeddf Llesiant**

Daeth y Ddeddf hon i rym yn Ebrill 2016 i drawsffurfi'r ffordd y cyflenwir gofal a chymorth gan ei gwneud yn gyfrifoldeb ar fwy na dim ond adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol yr Awdurdod Lleol. Mae a wnelo â hyrwyddo annibyniaeth pobl i roi llais cryfach iddynt a mwy o reolaeth dros y pethau sydd o bwys iddynt. Ei nod yw cefnogi pobl o bob oedran drwy eu teuluoedd a'u cymunedau fel eu bod yn llai dibynnol ar wasanaethau sefydliadol. Mae'r Ddeddf:

- Yn annog gwasanaethau i ymgysylltu â dinasyddion a'u galluogi
- Yn hyrwyddo annibyniaeth a llesiant
- Yn rhoi i bobl sy'n derbyn cymorth a'u gofawyr reolaeth dros eu bywydau a'r gefnogaeth a dderbyniant i fwyhau annibyniaeth.

Fel rhan o'r Ddeddf,  cwblhawyd asesiad o anghenion y boblogaeth ar lefel ranbarthol (Gwent). Roedd hwn yn asio gyda'r Asesiad Llesiant a darparodd asesiad o anghenion a blaenoriaethau ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol o fewn Rhanbarth Gwent Fwyaf dros gyfnod o 3 - 5 mlynedd. Mae'r asesiad wedi clustnodi'r canlyniadau blaenoriaethol canlynol a ddatblygir drwy'r Cynllun Ardal.

- Gwella'r canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth drwy ymyrraeth gynt, cefnogaeth yn seiliedig ar y gymuned a lleoliad yn nes at gartref
- Sicrhau iechyd meddwl a llesiant emosiynol da ar gyfer plant a phobl ifanc drwy weithio'n effeithiol fel partneriaeth
- Gwella llesiant emosiynol ar gyfer pobl hŷn drwy leihau unigrwydd ac ynysu cymdeithasol gydag ymyrraeth gynt a gwytnwch cymunedol
- Gwella canlyniadau ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr
- Tai a llety priodol ar gyfer pobl hŷn
- Cefnogi pobl anabl drwy agwedd pob oedran i fyw'n annibynnol mewn llety priodol a chael mynediad i wasanaethau sy'n seiliedig ar y gymuned, gan gynnwys trafndiaeth.
- Helpu pobl i leihau'r perygl o iechyd a llesiant gwael drwy ymyrraeth gynt a chefnogaeth gymunedol
- Cefnogi pobl ag anabledau dysgu i fyw'n annibynnol gyda mynediad i wasanaethau ymyrraeth gynt yn y gymuned; ac ymwybyddiaeth a dealltwriaeth gyhoeddus well o bobl ag anghenion anabledau dysgu
- Darparu diagnosis mwy amserol o Anhwylderau yn y Sbectrwm Awstistig a mynediad i wasanaethau cymorth a gwybodaeth a chyngor
- Dealltwriaeth gynyddol ac ymwybyddiaeth o iechyd meddwl ymhlith y cyhoedd i leihau stigma a helpu pobl i geisio cymorth yn gynt
- Gwella llesiant emosiynol ac iechyd meddwl ar gyfer oedolion a phlant drwy ymyrraeth gynnar a chefnogaeth gymunedol
- Sicrhau y caiff pobl eu cefnogi drwy fynediad i wybodaeth gywir, cymorth ac 'adsefydlu' lle bo'n ofynnol
- Gwella llesiant emosiynol yn arbennig drwy gefnogaeth cymheiriad i gymheiriad

Ymgynghorir ar y Cynllun Ardal ochr yn ochr â'r ddogfen hon. Gallwch lawr lwytho copi ac ymateb i'r ymgynghoriad ar [www.monmouthshire.gov.uk/population-needs-assessment](http://www.monmouthshire.gov.uk/population-needs-assessment)

## Deddfwriaeth arall

Mae'r Ddeddf yn mynnu bod Byrddau'r Gwasanaethau Cyhoeddus yn ystyried sawl darn arall o ddeddfwriaeth gan gynnwys y Ddeddf Cydraddoldeb 2010, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plentyn, Mesur yr Iaith Gymraeg 2011 a Deddf Amgylchedd 2016, a'u heffaith ar y Cynllun Llesiant.

Gweithiodd ByGC yn galed yn ystod proses ymgysylltu *Ein Sir Fynny* i sicrhau bod safbwyntiau'r holl bobl yn Sir Fynwy'n cael eu cynnwys, er enghraifft ymgymerwyd â gwaith gyda grwpiau anabl, pobl hŷn, ysgolion, ysgol Gymraeg, grwpiau ieuencid, grwpiau incwm isel a grwpiau eraill a dangynrychiolwyd. Trwythwyd yr amcanion yn y Cynllun hwn gan safbwyntiau'r bobl hum, ynghyd â safbwyntiau'r boblogaeth ehangach.

Ochr yn ochr â Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol, mae'r Ddeddf Amgylchedd yn cyflwyno dyletswydd fioamrywiaeth newydd ar gyfer cyrff cyhoeddus yng Nghymru. Dynodwyd yr amgylchedd naturiol fel un o asedau mwyaf Sir Fynwy yn yr asesiad Llesiant.

Mae'r amcanion a'r camau a amlinellir yn y Cynllun hwn yn tynnu sylw at feysydd y bydd ByGC yn canolbwyntio arnynt er mwyn gwella llesiant, fydd, os yn llwyddiannus, yn rhoddi i blant a phobl ifanc y dechrau gorau posib mewn bywyd, yn gweithio i wella ffyniant yn y sir, yn gwneud y mwyaf o'r asedau y mae pobl hŷn yn eu cyfrannu tra sicrhau y cyfarfyddir â'u hanghenion a bydd yn mwya hâu manteision ein hamgylchedd naturiol.

### **Cwrdd â dyletswyddau statudol eraill**

Gall Byrddau'r Gwasanaethau Cyhoeddus gwrdd â nifer o ddyletswyddau statudol eraill drwy'r Cynllun Llesiant, gan gynnwys trosedd ac anhrefn, camddefnyddio sylweddau, plant a theuluoedd, iechyd meddwl a thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Ar hyn o bryd nid yw Cynllun Llesiant drafft Sir Fynwy'n amcanu at gyflenwi'r dyletswyddau hyn, y cyfarfyddir â hwy yn hytrach drwy waith sefydliadau a phartneriaethau eraill. Adolygir hyn fel rhan o'r broses ymgynghori a datblygir camau manylach i gyflenwi'r amcanion.

# Datblygu'r Asesiad Llesiant

Ym Mawrth 2017, mabwysiadodd ByGC ei asesiad llesiant. Datblygwyd hwn drwy ymgysylltu eang gyda'r gymuned gan ddefnyddio proses *Ein Sir Fynwy*, ynghyd â dadansoddiad manwl o ddata, ystadegau, ymchwil a pholisi. Canolbwyntiodd yr Asesiad ar lesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol yn y sir gyfan, a hefyd ar gyfer ein 5 maes daearyddol a amlinellir yn yr Asesiad Llesiant: Y Fenni a'r ardal o amgylch, Cas-gwent a'r Gwy Isaf, Calon Sir Fynwy (yn cynnwys Cil-y-coed, Rogiet, Magwyr a Gwndy). Mae disgrifiad manwl o'r broses a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r asesiad yn Atodiad 2. Gellir gweld yr Asesiad Llesiant llawn ar [www.monmouthshire.gov.uk/our-monmouthshire](http://www.monmouthshire.gov.uk/our-monmouthshire)

Bydd yr asesiad llesiant yn ddogfen barhaus a deinamig. Yn ystod oes y Cynllun Llesiant hwn bydd yr asesiad yn parhau i fod yn ddogfen fyw a gaiff ei diweddaru ac yr ychwanegir ati. Bydd ByGC yn rhoddi ystyriaeth bellach i'r modd y caiff hyn ei hwyluso. Bydd datblygiad a diweddariad parhaus yr asesiad llesiant yn ffurfio rhan sylfaenol o unrhyw adolygiadau neu argraffiadau o'r amcanion llesiant yn y dyfodol.

## Heriau a Chyfleoedd yr asesiad Llesiant

Tynnodd yr asesiad Llesiant sylw at nifer o asedau y gallwn adeiladu dyfodol arnynt i bobl a chymunedau Sir Fynwy a hefyd nifer o broblemau a heriau sydd angen mynd i'r afael â hwy.

Y materion isod yw'r rheiny a ddistyllwyd o'r dystiolaeth. Nid yw'n grynodeb o'r materion allweddol. Mae fodd bynnag yn ymgais i dynnu sylw at y materion sy'n debygol o gael yr effaith fwyaf ar lesiant cenedlaethau presennol a chenedlaethau dyfodol pobl sy'n byw ac yn gweithio yn Sir Fynwy. Cynlluniwyd yr heriau yn gychwynnol gan yr awduron a'r asiantaethau partner yn dilyn triogli'r dystiolaeth. Fe'u heriwyd ac fe'u trwythwyd wedyn yn dilyn ymgynghori cyhoeddus, craffu a gweithdai ByGC a gweithdai partner.

Nid graddfeydd amser bras y tymor byr, y tymor canolig neu'r tymor hir, yw pryd mae angen i ni ddechrau gweithredu i fynd i'r afael â'r mater, ond maent yn arwydd o ba mor fuan y gallai unrhyw raglenni a roddwyd yn eu lle fod yn debygol o ildio gwelliannau mesuradwy mewn llesiant.

## Tymor byr

- Mae trafndiaeth gyhoeddus gyfyngedig, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, yn ei gwneud yn anos i bobl gael mynediad i swyddi, gwasanaethau a chyfleusterau. Gallai hyn gael ei waethygu drwy brisiau tanwydd cyd-rwy'r Fargen Ddinesig a chynnydd mewn technoleg megis cerbydau wedi'u hawtomeiddio.
- Mae gan Sir Fynwy lefelau uchel o gyfalaf cymdeithasol a gwirfoddoli. Drwy gymryd agwedd sy'n seiliedig ar asedau a llefydd mae cyfle i wella llesiant.

## Tymor canolig

- Mae lefelau cyflog ar gyfer swyddi lleol yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a'r DU. Wrth eu cyflysu â phrisiau eiddo uchel, a gyda thir cyfyngedig ar gael ar gyfer

datblygiadau tai yn y dyfodol mae hyn yn ei gwneud yn anodd i bobl ifanc a chenedlaethau'r dyfodol i fyw a gweithio'n lleol.

- Mae arwyddo'r Fargen Ddinesig o £1.2 biliwn gan y deg awdurdod lleol yn Ne-ddwyrain Cymru yn dod â chyfleoedd i drosoli o gwmpas buddsoddi pellach yn y sector preifat gan greu swyddi a hybu ffyniant economaidd ar draws y rhanbarth cyfan.
- Rydym yn gweithredu o fewn economi gynyddol fyd-eang. Mae patrymau cyflogaeth yn newid gyda mwy o gontractau dros dro fel rhan o'r economi 'gig'. Yn y cyfamser golyga datblygiadau technolegol megis awtomeiddio, roboteg a chynnydd mewn deallusrwydd artifisial y bydd angen i oddeutu traean y swyddi sydd eisoes ar gael, gweithlu yfory, feddu ystod o sgiliau hollol wahanol i sgiliau'r rheiny sy'n gadael yr ysgol heddiw.
- Mae angen cynyddu ymddygiad iach a gyda thystiolaeth gynyddol y gall yr hyn a ddigwydd yn ystod y 1,000 o ddiwrnodau cyntaf bywyd plentyn o'i feichiogi i'w ail benblwydd gael effaith fawr ar ba mor iach a hapus y bydd wrth dyfu i fyny. Mae manteision i lesiant wrth hoelio sylw ar y mil o ddiwrnodau cyntaf ym mywyd plentyn.
- Daw poblogaeth sy'n heneiddio â nifer o gyfleoedd, fodd bynnag, mae heriau'n ogystal ar gyfer darpariaeth gwasanaethau a chynnydd yn nifer y bobl sy'n byw gyda chyflyrau tymor hir a fydd yn creu pwysau ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.
- Mae llawer o bobl agored i niwed yn ein cymdeithas a gall hyn godi o nifer o bethau megis iechyd meddwl neu anabledd corfforol neu ffactorau megis oedran, ynysu gwledig ac unigrwydd. Gall adnabod gweithgaredd ataliol ac agweddau integredig amddiffyn pobl rhag niwed difrifol a gwella llesiant.
- Gall y celfyddydau a diwylliant gael effaith gadarnhaol ar iechyd emosiynol a llesiant gan ddarparu cyfleoedd ar gyfer mynegiant a chyswllt cymdeithasol. Fodd bynnag gall cyllid ar gyfer y celfyddydau ddod dan bwysau mewn cyfnodau o gyni ac mae angen cynyddu hygyrchedd y celfyddydau, diwylliant a threftadaeth i fwyhau'u cyfraniad i lesiant.
- Mae Sir Fynwy wedi profi twf yn y galw am addysg cyfrwng Cymraeg ac os bydd y duedd hon yn parhau, fe fydd angen sicrhau bod darpariaeth ddigonol.
- Mae llygredd aer yn achosi problemau i iechyd pobl ac mae'n un o'r cyfranwyr mwyaf at farwolaethau cyn pryd yng Nghymru. Yn Sir Fynwy achosir y problemau mwyaf gan allyriadau cerbydau ac mae hyn yn amlwg iawn ym Mrynbuga a Chas-gwent.
- Mae llygredd dŵr yn bryder o nifer o ffynonellau, gan gynnwys arferion amaethyddol newidiol.

## Tymor hir

- Mae anghyfartaledd rhwng cymunedau ac o fewn cymunedau. Mae hyn yn cynnwys anghyfartaledd mewn cyrhaeddiad addysgol, lefelau cyflog a chanlyniadau iechyd. Tynnir sylw eglur at hyn mewn sir lle mae pobl, ac yn arbennig plant, yn byw mewn tldi yn agos i ardaloedd o gyfoeth gwirioneddol. Dengys ymchwil fod gan anghyfartaledd effaith negyddol ar sawl agwedd o lesiant gyda chymdeithasau mwy cyfartal yn profi gwell canlyniadau.
- Mae plant sy'n profi plentyndod yn llawn straen ac o ansawdd wael yn fwy tebygol o fabwysiadu clefydau ac afiechydon yn hwyrach yn eu bywydau. Gall hyn gael ei ailadrodd drwy'r cenedlaethau ac felly gall atal y profiadau hyn neu leihau'u heffeithiau fod o fudd i genedlaethau'r dyfodol ynghyd â'r cenedlaethau cyfredol.
- Mae lleihau lefelau gweithgarwch corfforol ynghyd â newidiadau dietegol yn arwain at lefelau cynyddol o ordewdra. Mae hyn yn debygol o arwain at gynnydd mewn cyflyrau tymor hir sy'n gysylltiedig ag ef megis diabetes math 2.



- Mae datblygiad, newid hinsawdd a llygredd i gyd yn peri peryglon i'r amgylchedd naturiol ac adeiledig Mae'r rhain yn ganolog i'n llesiant ac mae angen eu hamddiffyn a'u cadw ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.
- Mae newid hinsawdd yn debygol o gynyddu'r perygl o lifogydd, ynghyd â nifer o beryglon eraill, ac felly fe fydd lleihau newid hinsawdd a gwytnwch adeiladu yn hanfodol ar gyfer cymunedau.


# O asesiad llesiant i amcanion llesiant i weithredu

---

Yn dilyn cwblhau'r Aseiad Llesiant, mae Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus nawr yn paratoi cynllun llesiant lleol sy'n amlinellu'i amcanion lleol a'r camau y bydd yn eu cymryd i gwrdd â hwy. Bu'n hanfodol cael proses drylwyr yn ei lle wrth symud o Aseiad Lles i Gynllun Llesiant er mwyn sicrhau b od yr amcanion a ddewiswyd gan Fwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cael eu trwytho'n llawn a'u cynllunio gan y dystiolaeth a gynhyrchwyd gan yr Aseiad Llesiant a chymryd agwedd integredig at gyflenwi yn erbyn nodau'r llesiant. Mae'n rhaid i'r rhain fod yn faterion lle penderfynir y gellir cymryd camau ar y cyd a gaiff effaith gadarnhaol ar lesiant yn y meysydd hynny.

Amlinellir isod yn Ffigur 2 y camau a gymerir i symud o'r asesiad llesiant i ddatblygu'r cynllun a rhoddir mwy o fanylder yn yr adran Fethodoleg yn Atodiad 3.

Ffigur 2: Proses symud o Asesiad Llesiant i Gynllun Llesiant



# Amcanion Llesiant Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus

Yng Ngorffennaf 2017, cytunodd ByGC eu pwrpas o **adeiladu cymunedau cynaliadwy a chydnerth**, tri dyhead trawstoriadol a fydd yn gymwys i'r holl amcanion a'r camau, a phedwar amcan llesiant - dau ynghylch pobl a dau ynghylch lle, fel y dangosir yn y tabl canlynol:

Pwrpas	Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy a Chydnerth	
<b>Ein dyhead yw:</b>	Lleihau anghyfartaledd rhwng cymunedau ac o fewn cymunedau Cefnogi ac amddiffyn pobl sy'n agored i niwed Gwireddu'r buddion sydd gan yr amgylchedd naturiol i'w cynnig	
<b>Ein Hamcanion Llesiant yw:</b>	<i>Pobl / Dinasyddion</i>	<i>Lle / Cymunedau</i>
	Darparu'r dechrau gorau posib mewn bywyd i blant a phobl ifanc	Amddiffyn a gwella gwytnwch ein hamgylchedd naturiol tra rhwystrir ac addasir i effaith newid hinsawdd Amddiffyn a gwella gwytnwch ein hamgylchedd naturiol tra cwtogir effaith newid hinsawdd ac addasu ar ei gyfer.
	Ymateb i'r her sy'n gysylltiedig â newid demograffig	Datblygu cyfleoedd i gymunedau a busnesau fod yn rhan o sir sydd â chysylltiadau da ac sy'n ffynnu'n economaidd.

Darperir â mwy o fanylder ynghylch y broses i ddatblygu'r amcanion a'r rhesymeg y tu ôl i'w dewis yn Atodiad 3.

## Cymhwyso'r pum ffordd o weithio

Drwy gydol proses datblygu'r cynllun llesiant, symud o dystiolaeth yr asesiad llesiant drwyddo i ddatblygu'r amcanion a'r camau a gynlluniwyd i gyflenwi'r amcanion, fe gymhwyswyd y pum ffordd o weithio. Yn yr un modd, fel mae'r camau'n cael eu datblygu'n fwy manwl, fe gymhwysir y ffyrdd o weithio.

## Tymor Hir

Nod y cynllun llesiant yw mynd i'r afael â'r materion heriol na ellir eu datrys yn hawdd yn y tymor byr. Mae angen meddwl yn y tymor hir a gweithredu cydweithredol i ddatrys llawer o'r heriau pennaf a ddynodir yn yr asesiad llesiant. Yn yr un modd, ni chyflenwir nifer o'r camau arfaethedig a gymerir i gwrdd â'r amcanion llesiant yn y tymor byr, a bydd angen ymdrech ddygn dros amser er mwyn cynhyrchu manteision llesiant tymor hir ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Pan gynllunnir ar gyfer y dyfodol, bu ByGC yn ystyrllon o dueddiadau yn y dyfodol a fydd yn effeithio ar bobl, economi ac amgylchedd Sir Fynwy. Mae hyn wedi golygu cyfeirio at wybodaeth Llywodraeth Cymru ar Dueddiadau'r Dyfodol <sup>1</sup>. Yn ychwanegol teimlai'r awdurdodau yng Ngwent y byddai gwybodaeth ar dueddiadau mwy rhanbarthol benodol yn y dyfodol yn ddefnyddiol, felly maent wedi comisiynu darn ychwanegol o waith ar hyn. Ar adeg cyhoeddi, ni

chwblhawyd y gwaith hwn, fodd bynnag bydd y cynllun llesiant yn parhau i esblygu gan ystyried y dystiolaeth a dderbyniwyd o waith ar dueddiadau'r dyfodol a thystiolaeth arall sy'n ymddangos dros oes y cynllun.

## Integreiddio

Drwy gydol prosesau'r asesiad llesiant a'r cynllun llesiant, mae ByGC wedi gosod pwys mawr ar integreiddio a'r angen i wneud yn siŵr y gwneir cysylltiadau rhwng materion gwahanol. Maent wedi gweithio'n galed i sicrhau nad ystyriwyd yr amcanion a'r camau ar eu pennau eu hunain. Er enghraifft, penderfynodd y Bwrdd Golygyddol gynnal un gweithdy yn edrych ar bob un o'r pedwar amcan, yn hytrach na gweithdai ar wahân i bob un, er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn cael eu hystyried yn gysylltiedig â'i gilydd. Rhoddwyd amser yn y gweithdai i gynrychiolwyr symud rhwng amcanion fel bod agwedd gydgyssylltiedig wedi cael ei chymryd. Yn yr un modd, mae'r camau a amlinellwyd ar gyfer pob un o'r amcanion isod yn dangos pa rai o'r amcanion eraill y cânt effaith arnynt. Bydd cymryd bod datrysiadau wedi cael eu hintegreiddio'n allweddol pan gyflenwir yr amcanion, a rhoddir ystyriaeth a ddylid defnyddio Gwerthusiad o Genedlaethau'r Dyfodol (yn debyg i'r un a fabwysiadwyd gan Gyngor Sir Fynwy) ar gyfer prosiectau ByGC, er mwyn sicrhau eu bod yn cyfrannu at y nodau llesiant a'r pum ffordd o weithio. Gallai fod yn briodol i'r gwerthusiadau hyn gael eu cwblhau gan y sefydliad arweiniol yn unol â threfniadau llywodraethiant cyrff cyhoeddus unigol.

## Cydweithredu

Mae cydweithredu'n hanfodol i lwyddiant ByGC ac ni ellir cyflenwi'r amcanion a ddewiswyd heb gydweithredu. Mae partneriaid ByGC wedi gweithio'n glos gyda'i gilydd i ymgysylltu gyda chymunedau, rhannu data a chynhyrchu asesiad llesiant. Mae'r Bwrdd Golygyddol wedi parhau i gwrdd yn ystod datblygu'r amcanion a'r cynllun llesiant. Penderfynodd ByGC ofyn i'r Bwrdd Rhaglenni ymgymryd yn gychwynnol â datblygu'r amcanion, gan gydnabod y sgiliau a'r arbenigedd a feddir gan haenau eraill o'r staff o fewn eu sefydliadau. Roedd Bwrdd Rhaglenni ByGC (sy'n adlewyrchu partneriaid ByGC (ar lefel dirprwy/Prif Swyddog/ Penaethiaid Gwasanaeth) yn gallu cymhwysu'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r heriau a orweddi o fewn pedwar amcan ByGC, sydd wedi helpu i drwytho meddylfryd ByGC.

Cynhaliwyd gweithdai partneriaeth i drwytho gweithdy ByGC ym mis Hydref 2017, gan roddi i ystod eang o bartneriaid y cyfle i rannu'u barn a'u profiadau gyda ByGC. Yng ngweithdy nis Hydref, cymerodd ystod eang o bartneriaid ac arbenigwyr ar draws Cymru ran mewn trafodaethau i ddatblygu'r camau yn y cynllun hwn.

Ni ellir mynd i'r afael â'r heriau sy'n codi o'r Asesiad Llesiant ond drwy weithio mewn partneriaeth a bydd angen cydweithredu ar y camau a ddynodir yn yr amcanion er mwyn mynd i'r afael â hwy. Mae angen i bartneriaid ByGC ddeall yn llawn eu cyfraniad ar y cyd i bob amcan a sut y gallant weithio gyda'i gilydd yn well i gyflenwi camau yn y dyfodol. Mewn rhai achosion gwneir y cydweithredu hwn ar lefel Gwent, lle mae'r Grŵp Asesu Llesiant Strategol Gwent wedi dynodi blaenoriaethau a rennir.

## Ymgysylltu

Roedd ymgysylltu â'r cyhoedd yn allweddol i ddatblygu'r asesiad llesiant drwy broses ymgysylltu *Ein Sir Fynwy*. Cyflawnwyd hwn wyneb yn wyneb ar y stryd, mewn digwyddiadau, ysgolion a



grwpiau cymunedol, ynghyd â thrwy arolygon ar-lein, Twitter, Facebook a Sir Fynwy Wnaed yn Agored. Mae'r mewnbyn hwn gan y cyhoedd wedi trwytho datblygu'r cynllun llesiant hwn.

O fis Hydref 2017 ymlaen, rhannwyd y pedwar amcan ar Sir Fynwy Wnaed yn Agored, gyda'r cyhoedd yn cael eu hannog i rannu'u syniadau. Parheir i ddefnyddio'r llwyfan hwn drwy'r cyfnod ymgynghori, ynghyd â'r cyfryngau cymdeithasol. Rhennir y cynllun llesiant yn ogystal drwy bartneriaethau Sir Fynwy, Cynghorau Tref a Chymuned a rhwydweithiau eraill.

## Atal

Mae cymryd agwedd ataliol drwy weithredu nawr i atal problemau tymor hir yn ganolog i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn ganolog i'r ffordd mae ByGC yn gweithio. Mae'r camau y bydd ByGC yn canolbwyntio arnynt wedi'u hamlinellu yn y Cynllun i gyd yn canolbwyntio ar yrr hyn y gellir ei wneud nawr i atal problemau tymor hir. Mae ByGC yn cydnabod, tra gallai ymyrraeth nawr olygu cost tymor byr, bydd agwedd ataliol yn arbed arian ac yn atal problemau yn y tymor hwy.

## Egluro'r amcanion

Mae hwn yn egluro'r templed a ddefnyddir i amlinellu'r amcanion llesiant.

### Darganfod – Dadansoddi sefyllfa

Mae'r asesiad llesiant yn darparu dadansoddiad o lesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Sir Fynwy gyfan ynghyd ag ardaloedd mwy lleol. Mae'r adran hon yn amlinellu'r materion allweddol perthnasol a'r heriau o'r asesiad llesiant y bydd gan yr amcan effaith arnynt.

### Diffinio - Dadansoddi ymateb

Wedi'i drwytho a'i ffurfio gan y dystiolaeth a gynhyrchwyd gan yr Asesiad Llesiant mae'r adran hon yn disgrifio â mwy o fanylder ddadansoddiad cychwynnol o faterion a themâu unigol a drwythodd ddatblygiad yr amcan.

### Nodau llesiant y cyfrennir atynt

Mae'r tabl yn dangos fel mae pob un o'r amcanion yn cyfrannu at nodau llesiant cenedlaethol. Mae nifer o'r amcanion yn cwmpasu llawer o'r nodau llesiant, a gallai rhai o bosib gyfrannu hyd yn oed at yr holl nodau. Mae'r nodau y tynnwyd sylw atynt yn dangos lle mae'r cyfraniad mwyaf arwyddocaol gan yr amcan i gyflawni nod.

### Cyflenwi'r Datrysiad

Mae hwn yn tynnu sylw at y camau allweddol y bwriada ByGC eu cymryd i gwrdd â'r amcan. Ar yr adeg hon mae hwn yn amlinellu'r meysydd ffocws ar gyfer ByGC. Ymgymerir â dadansoddiad pellach i ymatebion fel yr amlinellir yn yr adran "Beth sy'n Digwydd Nesaf?" i ddarparu camau manylach i gwrdd â'r amcan erbyn Ebrill 2018, pan gyhoeddir y Cynllun Llesiant terfynol.

### Cysylltiadau rhwng amcanion

Mae hwn yn dynodi lle bydd camau i gyflenwi'r amcan hefyd yn cyfrannu at gwrdd ag un arall o'r amcanion. Mae'r symbolau'n cynrychioli pob amcan, y rhain yw:



Darparu'r dechrau gorau posib mewn bywyd i blant a phobl ifanc



Ymateb i'r heriau sy'n gysylltiedig â newid demograffig



Amddiffyn a gwella gwytnwch ein hamgylchedd naturiol tra rhwystrir ac addasir i effaith newid hinsawdd.



Datblygu cyfleoedd i gymunedau a busnesau fod yn rhan o sir â chysylltiadau da ac yn ffynnu'n economaidd.



## Amcan Llesiant – Darparu'r dechrau gorau mewn bywyd i blant a phobl ifanc

### Darganfod – Dadansoddiad o'r sefyllfa

Tynnodd yr Asesiad Llesiant sylw at yr heriau a'r materion allweddol ar gyfer Sir Fynwy, y rheiny gaiff eu heffeithio'n uniongyrchol gan yr amcan hwn yw:

- Mae lefelau cyflog ar gyfer swyddi lleol yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a'r DU. Wrth eu cyplysu â phrisiau eiddo uchel, a gyda thir cyfyngedig ar gael ar gyfer datblygiadau tai yn y dyfodol mae hyn yn ei gwneud yn anodd i bobl ifanc a chenedlaethau'r dyfodol i fyw a gweithio'n lleol.
- Mae anghyfartaledd rhwng cymunedau ac o fewn cymunedau. Mae hyn yn cynnwys anghyfartaledd mewn cyrhaeddiad addysgol, lefelau cyflog a chanlyniadau iechyd. Tynnir sylw eglur at hyn mewn sir lle mae pobl, ac yn arbennig plant, yn byw mewn tldi yn agos i ardaloedd o gyfoeth gwirioneddol. Dengys ymchwil fod gan anghyfartaledd effaith negyddol ar sawl agwedd o lesiant gyda chymdeithasau mwy cyfartal yn profi gwell canlyniadau.
- Rydym yn gweithredu o fewn economi sy'n mynd yn gynyddol fyd-eang. Mae patrymau cyflogaeth yn newid gyda mwy o gontractau dim oriau, contractau dros dro, a gwaith llawrydd. Yn y cyfamser gallai datblygiadau technolegol megis awtomeiddio, roboteg a chynnydd mewn deallusrwydd artiffisial arwain at oddeutu traean y swyddi sydd eisoes yn bodoli yn y DU ddiflannu sy'n golygu y bydd angen carfan o sgiliau gwahanol iawn ar weithlu'r yfory i'r sgiliau mae'r rheiny sy'n gadael yr ysgol heddiw yn eu meddu.
- Mae angen cynyddu ymddygiad iach a gyda thystiolaeth gynyddol y gall yr hyn a ddigwydd yn ystod y 1,000 o ddiwrnodau cyntaf bywyd plentyn o'i feichiogi i'w ail ben-blwydd gael effaith fawr ar ba mor iach a hapus y bydd wrth dyfu i fyny.
- Mae plant sy'n profi plentyndod yn llawn straen ac o ansawdd wael yn fwy tebygol o fabwysiadu clefydau ac afiechydon yn hwyrach yn eu bywydau. Gall hyn gael ei ailadrodd drwy'r cenedlaethau ac felly gall atal y profiadau hyn neu leihau'u heffeithiau fod o fudd i genedlaethau'r dyfodol ynghyd â'r cenedlaethau cyfredol.
- Mae llawer o bobl agored i niwed yn ein cymdeithas a gall hyn fodi o nifer o bethau megis iechyd meddwl neu anabledd corfforol neu ffactorau megis oedran, ynysu gwledig ac unigrwydd. Gall adnabod gweithgaredd ataliol ac agweddau integredig amddiffyn pobl rhag niwed difrifol a gwella llesiant.

### Diffinio – Dadansoddiad o'r ymateb

Mae'r amcan yn darparu ffocws bras ar draws cychwyn bywydau pobl o feichiogi i fyd oedolion cynnar. Dengys ymchwil fod gan y mil o ddiwrnodau cyntaf ym mywyd plentyn o'i feichiogi i'w ail ben-blwydd effaith sylweddol ar ei ganlyniadau. Gall dod i gysylltiad â Phrofiadau Plentyndod Andwyol (PPAau) newid y modd mae ymennydd plentyn yn datblygu a'i fod yn fwy tebygol o fabwysiadu ymddygiad sy'n niweidio iechyd. Mae'r ymateb i hyn yn Sir Fynwy yn gofyn am ddealltwriaeth a chydlynu pellach gydag ystod o bartneriaid i ddatblygu agwedd hirdymor, o ystyried cymhlethdod materion cysylltiedig.

Mae rhan o'r ymateb yn cynnwys ByGC a'r asiantaethau partner yn cael swyddogaeth bwysig i uno ymatebion ac adnoddau i ganolbwyntio ar ymyriadau rhagweithiol a galluogi plant a

theuluoedd i gael mynediad i gymorth integredig cyflawn ar draws asiantaethau /adrannau ac elwa o rannu gwybodaeth ddi-dor.

Mae galluogi a grymuso plant a phobl ifanc i gymryd mwy o reolaeth dros eu hiechyd eu hunain hefyd yn bwysig i leihau dibyniaeth ar wasanaethau statudol oni bai y bydd yn angenrheidiol. Mae hyn yn cysylltu â'r gweithredu "newid demograffig".

Mae hyrwyddo ymddygiad iach sy'n cefnogi iechyd corfforol a lles meddyliol plant a phobl ifanc yn ffocws pwysig ar gyfer llesiant cenedlaethau'r dyfodol, yn enwedig â gordewdra plentyndod yn broblem gynyddol. Mae cynllun gweithredu gordewdra plentyndod eisoes yn Sir Fynwy, yn cael ei gymeradwyo gan Fwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus. Yn gysylltiedig ag "agwedd yr amgylchedd naturiol a newid hinsawdd" bydd galluogi plant i fod yn egniol a chymryd rhan mewn chwarae, yn enwedig chwarae y tu allan, yn bwysig. Dynodwyd mynediad i fannau agored fel maes sydd angen gwella a gallai newid ymddygiad fod yn ofynnol hefyd (gan gynnwys ymddygiad oedolion) i gefnogi hyn.

Deil ffocws ar berfformiad academiaidd mewn ysgolion a dealltwriaeth o feysydd sydd angen eu gwella. Yn y dyfodol mae angen dealltwriaeth lawnach o'r hyn mae'r 'gorau' i blant yn edrych mewn gwirionedd drwy sicrhau na chaiff plant nac ysgolion eu mesur yn ôl canlyniadau academiaidd yn unig, ond drwy ddatblygu gwell dealltwriaeth o lesiant plant a sut i'w fesur.











Yn gysylltiedig â'r agwedd "sir ffyniannus", made tueddiadau pellach yn dynodi bod technoleg yn debygol o gymryd swyddogaeth arweiniol, a gallai ddisodli llawer o swyddi. Mae angen i ni weithio'n agos gydag addysg uwch a busnesau i sicrhau bod plant a phobl ifanc wedi'u paratoi'n well ac yn fwy na pharod ar gyfer y sgiliau sydd eu hangen arnynt yn lleol ac yn fyd-eang yn y dyfodol.

Bydd y Cynlluniau Ardal, i gael eu datblygu dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, yn amlinellu mesurau i fynd i'r afael ag anghenion plant a phobl ifanc, ynghyd ag eraill, a fydd yn cyfrannu at helpu i gyflenwi'r amcan hwn.

### Cyfrannodd nodau llesiant at y canlynol

Cymru Lewyrchus	Cymru Gydnerth	Cymru Iachach	Cymru sy'n fwy Cyfartal	Cymru o gymunedau cydlynus	Cymru â diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
-----------------	----------------	---------------	-------------------------	----------------------------	---	---------------------------------------

### Cyflenwi'r Datrysiad

Bydd ByGC yn canolbwyntio ar y canlynol:	Cysylltiadau amcan
Mynd i'r afael ag achosion PPAau a pharhad problemau o genhedlaeth i genhedlaeth mewn teuluoedd.	 
Gweithio i fynd i'r afael ag anweithgarwch corfforol a gordewdra er mwyn gwella iechyd a llesiant cenedlaethau'r dyfodol.	  
Gweithio i sicrhau bod ysgolion a gwasanaethau i blant yn canolbwyntio ar lesiant ac agwedd fwy crwn na chanlyniadau academiaidd pur yn unig.	 
Cefnogi cadernid plant a phobl ifanc mewn perthynas â'u hiechyd meddwl a'u llesiant emosiynol.	  



## Amcan Llesiant – Ymateb i'r heriau sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd

### Darganfod – Dadansoddiad o'r sefyllfa

Tynnodd yr Asesiad Llesiant sylw at yr heriau a'r materion allweddol ar gyfer Sir Fynwy, y rheiny gaiff eu heffeithio'n uniongyrchol gan yr amcan hwn yw:

- Mae gan Sir Fynwy lefelau uchel o gyfalaf cymdeithasol a gwirfoddoli. Drwy gymryd agwedd yn seiliedig ar asedau a llefydd mae cyfle i wella llesiant.
- Mae'r lefelau cyflog sydd ar gael ar gyfer swyddi lleol yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a'r DU. Wrth eu cyplysu â phrisiau eiddo uchel, a gyda thir cyfyngedig ar gael ar gyfer datblygiadau tai yn y dyfodol mae hyn yn ei gwneud yn anodd i bobl ifanc a chenedlaethau'r dyfodol i fyw a gweithio'n lleol.
- Daw poblogaeth sy'n heneiddio â nifer o gyfleoedd, fodd bynnag, mae heriau'n ogystal ar gyfer darpariaeth gwasanaethau a chynnydd yn nifer y bobl sy'n byw gyda chyflyrau tymor hir a fydd yn creu pwysau ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.
- Mae llawer o bobl agored i niwed yn ein cymdeithas a gall hyn godi o nifer o bethau megis iechyd meddwl neu anabledd corfforol neu ffactorau megis oedran, ynysu gwledig ac unigrwydd. Gall adnabod gweithgaredd ataliol ac agweddau integredig amddiffyn pobl rhag niwed difrifol a gwella llesiant.

### Diffinio – Dadansoddiad o'r ymateb

Mae demograffeg newidiol Sir Fynwy yn cynnig nifer o heriau a hefyd nifer o gyfleoedd i wella llesiant. Mae tueddiadau'r dyfodol yn dangos newidiadau ym mhroffil oedran y sir gyda chynnydd sylweddol yng nghymhareb pobl hŷn i bobl iau.

Gallai'r boblogaeth sy'n heneiddio gynyddu'r galw am ystod o wasanaethau yn y sir. Tra bydd wastad angen y gwasanaethau cymorth hyn, drwy ganolbwyntio ar lesiant a datblygu pobl wydn, teuluoedd a chymunedau a all alluogi pobl i gefnogi'u hunain a lleihau'r angen a'r galw am ymyrraeth gan wasanaethau statudol.

Mae rhyngddibyniaeth bwysig gyda'r amcan "sir ffyniannus" ar wneud y sir yn lle hyfyw a fforddiadwy i bobl ifanc fyw a gweithio ynddi. Bydd cadw a denu pobl ifanc yn cefnogi hyfywedd hirdymor cymunedau gan ddarparu demograffeg fwy cytbwys, i gefnogi pobl hŷn. Mae gofalu'r ifanc yn chwarae rôl bwysig ac mae'n hanfodol eu bod yn cael eu cefnogi.

Mae hyn yn cyfateb i'r cyfraniad mae pobl hŷn yn ei wneud i'w cymunedau, a gaiff ei danbrisiu'n aml. Mae pobl hŷn yn gaffaeliad sylweddol i Gymru ac mae ysbryd cymunedol cryf yn aml mewn cymunedau gwledig ac yn ganolog iddo mae nifer o wirfoddolwyr hŷn sy'n chwarae rôl hanfodol yn eu cymunedau ac yn meddu ar gyfoeth o sgiliau, gwybodaeth a phrofiad. Dynodwyd y cyfalaf cymdeithasol hwn hyn Sir Fynwy fel cryfder arbennig y gellir adeiladu arno mewn cymunedau ac mewn cefnogi pobl iau. Mae mwyhau caffaeliad cymunedol a dinasyddiaeth weithredol yn hanfodol yn Sir Fynwy i gyflenwi pob un o'r pedwar amcan.

Dylid hefyd edrych ar ein pobl hŷn fel caffaeliad i'n heconomi, maent yn darparu gofal a chefnogaeth i aelodau eraill o'r teulu, gan roi cyfle i rieni weithio drwy ddarparu gofal plant



gwerthfawr.

Mae'r llefydd mae pobl yn byw, gweithio a chymdeithasu yn ffactor pwysig mewn llesiant. Mae blaengynllunio ar gyfer cymunedau sy'n oed-gyfeillgar ac yn wydn i newidiadau mewn demograffeg yn ganolog i hyn, er enghraifft, cynllunio gwasanaethau a seilwaith megis ysgolion, gofal iechyd a thai sy'n cefnogi aneddiadau ar gyfer pontio'r cenedlaethau.










Mae gwaith eisoes yn mynd rhagddo ar lefel Gwent ar ragnodi cymdeithasol, sy'n galluogi pobl o bob oedran i gael eu hatgyfeirio i ystod o wasanaethau llesiant anghlinigol yn seiliedig ar leoliad er mwyn mynd i'r afael ag anghenion pobl yn lleol mewn modd holistaidd ar draws ffactorau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol.

Bydd cynlluniau ardal rhanbarthol a gaiff eu datblygu dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn amlinellu rhychwant a lefel y gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol i gefnogi llesiant demograffeg amrywiol a bydd yn cyfrannu at helpu i gyflenwi'r amcan hwn.

### Cyfrannodd nodau llesiant at y canlynol

Cymru Lewyrchus	Cymru Gydnerth	Cymru Iachach	Cymru sy'n fwy Cyfartal	Cymru o gymunedau cydlynus	Cymru â diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd- eang
--------------------	-------------------	------------------	-------------------------------	----------------------------------	--	---

### Cyflenwi'r Datrysiad

Bydd ByGC yn canolbwyntio ar y canlynol:	Cysylltiadau amcan
Ail fynd i'r afael â'r cyflenwad a'r gymysgedd o stoc tai i sicrhau bod tai addas a fforddiadwy ar gael i bob grŵp demograffig	  
Dysgu o arfer dda mewn mannau eraill i ymchwilio i'r posibilrwydd o fyw ar gyfer pontio'r cenedlaethau, nawr ac i'r dyfodol.	
Hyrwyddo dinasyddiaeth weithredol drwy wirfoddoli, bancio-amser cyfnewid sgiliau person i berson a chyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol	  
Datblygu model gofalu a adeiladwyd ar lesiant ac edrych ar ôl ein gilydd yn hytrach na thrwy ddarpariaeth gofal ffurfiol	 
Datblygu rhwydweithiau ar gyfer pob oedran sy'n cefnogi llesiant pobl yn eu cymunedau lleol, gan gynnwys rhagnodi cymdeithasol (gweler uchod am eglurhad).	



## Amcan Llesiant - Amddiffyn a gwella gwytnwch ein hamgylchedd naturiol tra cwttogir effaith newid hinsawdd ac addasir iddo

### Darganfod – Dadansoddiad o'r sefyllfa

Tynnodd yr Asesiad Llesiant sylw at yr heriau a'r materion allweddol ar gyfer Sir Fynwy, y rheiny gaiff eu heffeithio'n uniongyrchol gan yr amcan hwn yw:

- Mae trafndiaeth gyhoeddus gyfyngedig, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, yn ei gwneud yn anos i bobl gael mynediad i swyddi, gwasanaethau a chyfleusterau. Gallai hyn gael ei waethygu drwy brisiau tanwydd cyd-rwy'r Fargen Ddinesig a chynnydd mewn technoleg megis cerbydau wedi'u hawtomeiddio.
- Mae llygredd aer yn achosi problemau i iechyd pobl ac mae'n un o'r cyfranwyr mwyaf at farwolaethau cyn pryd yng Nghymru. Yn Sir Fynwy achosir y problemau mwyaf gan allyriadau cerbydau ac mae hyn yn amlwg iawn ym Mrynbuga a Chas-gwent.
- Mae llygredd dŵr yn bryder o nifer o ffynonellau, gan gynnwys newid mewn arferion amaethyddol.
- Mae lleihau lefelau gweithgarwch corfforol ynghyd â newidiadau dietegol yn arwain at lefelau cynyddol o ordewdra. Mae hyn yn debygol o arwain at gynnydd mewn cyflyrau tymor hir sy'n gysylltiedig ag ef megis diabetes math 2.
- Mae datblygiad, newid hinsawdd a llygredd i gyd yn peri peryglon i'r amgylchedd naturiol ac adeiledig Mae'r rhain yn ganolog i'n llesiant ac mae angen eu hamddiffyn a'u cadw ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.
- Mae newid hinsawdd yn debygol o gynyddu'r perygl o lifogydd, ynghyd â nifer o beryglon eraill, ac felly fe fydd lleihau newid hinsawdd a gwytnwch adeiladu yn hanfodol ar gyfer cymunedau.

### Diffinio – Dadansoddiad o'r ymateb

Mae adnoddau naturiol, megis aer, tir, dŵr, bywyd gwyllt, planhigion a phridd, yn darparu'n hanghenion mwyaf sylfaenol, gan gynnwys bwyd, egni a diogelwch. Mae angen i'n hecosystemau fod mewn cyflwr da ac yn wydn er mwyn ein cadw'n iach, yn cyfrannu at lesiant corfforol a seicolegol ac yn darparu cyfraniadau hanfodol i'r economi drwy dwristiaeth, amaethyddiaeth, coedwigaeth a mwy. Oherwydd bod yr adnoddau naturiol hyn yn allweddol i gymaint o agweddau o lesiant, ni ellir eu hystyried ar wahân.

Mae'r heriau sy'n wynebu'n hamgylchedd naturiol yn lluosog – mae newid hinsawdd, datblygiad ac arferion rheoli tir newidiol i gyd yn fygythiadau posib i'n hadnoddau naturiol a'n hecosystemau. Mae mynd i'r afael â'r heriau hyn yn hawlio datrysiadau integredig a chydgyssylltiedig a gaiff eu datblygu a'u cyflenwi wrth i'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol weithio gyda'i gilydd. Mae angen i ni edrych ar addasu i newid hinsawdd ynghyd â lleihau'n gyfraniad iddo.

Mae gan y sector cyhoeddus yng Nghymru botensial aruthrol i ddefnyddio'i bŵer prynu ar y cyd i gefnogi'r economi leol drwy bennu a phrynu bwyd, ynni, nwyddau a gwasanaethau'n lleol. Gyda Brexit ar y gorwel gallai fod potensial i wasanaethau cyhoeddus gael mwy o hyblygrwydd yn eu penderfyniadau prynu, creu swyddi rhanbarthol a thwf busnesau tra cwttogir trafndiaeth a llygredd. Mae Brexit hefyd yn ychwanegu at yr ansicrwydd i nifer o sectorau, gan gynnwys amaethyddiaeth sy'n sector pwysig yn Sir Fynwy.

Mae gan Sir Fynwy botensial gwych i gynhyrchu ynni adnewyddadwy'n lleol. Mae sawl cwmni buddiannau cymunedol eisoes yn bodoli yn y sir a bydd datblygu modelau busnes mwy lleol ar gyfer ynni adnewyddadwy a generadu gwres, storio a dosbarthu yn cynyddu gwynwch ynni ynghyd â lleihau allyriadau carbon.

Er mwyn i lygredd aer fod o fewn cyfyngiadau diogel ar gyfer holl breswylwyr Sir Fynwy, mae modd mynd i'r afael â ffynonellau trafndiaeth drwy ddatblygu'r isadeiledd sydd ei angen ar gyfer defnydd cerbydau amgen, megis cerbydau'n cael eu pweru gan drydan, sydd newydd ddechrau cael eu datblygu yn 2017 yn Sir Fynwy, a threialu maes o law y cerbyd Rasa gaiff ei bweru gan hydrogen. Ochr yn ochr â hyn, mae datblygu datrysiadau trafndiaeth gyhoeddus yn hanfodol i fynd i'r afael ag ymysu gwledig a mynediad i swyddi a gwasanaethau.

Bydd defnyddio'r cyfleoedd a gynigir gan y Ddeddf Teithio Llesol i annog cerdded a beicio yn gymorth i leihau llygredd aer ond fe ddaw â buddiannau iechyd i bob oedran hefyd. Mae angen cynllunio a dylunio gofalus i ddatblygu cymunedau diogel, iach a bywiog sydd â llwybrau diogel a hygyrch a manau agored.







Er mwyn adeiladu gwynwch rhywogaethau ac ecosystemau yn wyneb tuedd debygol o hafau sychach a chynhesach, gaeafau gwlypach, neu bwysau eraill ar ein hamgylchedd naturiol, mae angen gweithredu bioamrywiaeth ar raddfa tirwedd ym maes bioamrywiaeth. Mae angen i gynefinoedd fod wedi'u cysylltu'n dda er mwyn bod yn wydn. Mae partneriaethau llwyddiannus eisoes yn bodoli, megis Sefydliad Gwy a Wysg a'r prosiect Lefelau Byw, ac mae angen cefnogi'r partneriaethau hyn a sefydlu rhai tebyg. Mae gweithredu ar raddfa tirwedd hefyd â'r potensial i ddarparu rheolaeth sylweddol ar berygl llifogydd naturiol ac wrth leihau'r perygl o lifogydd daw buddiannau economaidd, cymdeithasol ac iechyd.



Yn yr holl feysydd hyn, mae gweithio gyda phobl ifanc fydd yn gwneud penderfyniadau yn y dyfodol yn hanfodol. Drwy ysgolion, gwaith ieuenctid a grwpiau cymunedol, mae angen i bobl ifanc ddeall beth yw datblygiad cynaliadwy, gwybod paham ei fod yn bwysig, cael ysbrydoliaeth i wneud gwahaniaeth a'u galluogi i fod yn ddinasyddion mentrus, creadigol a gofalgarg y dyfodol.

## Cyfrannodd nodau llesiant at y canlynol

Cymru Lewyrchus	Cymru Gydnerth	Cymru Iachach	Cymru sy'n fwy Cyfartal	Cymru o gymunedau cydlynus	Cymru â diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
-----------------	----------------	---------------	-------------------------	----------------------------	---	---------------------------------------

## Cyflenwi'r Datrysiad

Bydd ByGC yn canolbwyntio ar y canlynol:	Cysylltiadau amcan
Gwella gwynwch ecosystemau drwy weithio ar raddfa fwy (tirwedd) i reoli bioamrywiaeth a mwyhau buddiannau megis rheoli perygl llifogydd naturiol.	
Sicrhau bod dylunio a pholisi cynllunio yn cefnogi cymunedau cryf, bywiog ac iach sy'n dda i bobl a'r amgylchedd.	  
Galluogi cynlluniau ynni adnewyddadwy, yn enwedig cynlluniau sy'n eiddo	 

i'r gymuned, a datblygu datrysiadau newydd gan gynnwys storio, ynni clyfar a chyflenwadau lleol.	
Galluogi teithio llesol a thrafnidiaeth gynaliadwy i wella ansawdd aer a rhoi manteision iechyd eraill yn ogystal.	
Gweithio gyda phlant a phobl ifanc i wella'u hymwybyddiaeth, eu dealltwriaeth a'u gweithredu dros ddatblygiad cynaliadwy a'u gwneud yn ddinasyddion cyfrifol byd-eang y dyfodol.	



Amcan Llesiant – Datblygu cyfleoedd i gymunedau a busnesau fod yn rhan o sir sydd â chysylltiadau da ac sy'n ffynnu'n economaidd.

### Darganfod – Dadansoddiad o'r sefyllfa

Tynnodd yr Asesiad Llesiant sylw at yr heriau a'r materion allweddol ar gyfer Sir Fynwy, y rheiny gaiff eu heffeithio'n uniongyrchol gan yr amcan hwn yw:

- Mae trafndiaeth gyhoeddus gyfyngedig, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, yn ei gwneud yn anos i bobl gael mynediad i swyddi, gwasanaethau a chyfleusterau. Gallai hyn gael ei waethygu drwy brisiau tanwydd cyd-rwy'r Fargen Ddinesig a chynnydd mewn technoleg megis cerbydau wedi'u hawtomeiddio.
- Mae lefelau cyflog ar gyfer swyddi lleol yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a'r DU. Wrth eu cyplysu â phrisiau eiddo uchel, a gyda thir cyfyngedig ar gael ar gyfer datblygiadau tai yn y dyfodol mae hyn yn ei gwneud yn anodd i bobl ifanc a chenedlaethau'r dyfodol i fyw a gweithio'n lleol.
- Mae anghyfartaledd rhwng cymunedau ac o fewn cymunedau. Mae hyn yn cynnwys anghyfartaledd mewn cyrhaeddiad addysgol, lefelau cyflog a chanlyniadau iechyd. Tynnir sylw eglur at hyn mewn sir lle mae pobl, ac yn arbennig plant, yn byw mewn tlogi yn agos i ardaloedd o gyfoeth gwirioneddol. Dengys ymchwil fod gan anghyfartaledd effaith negyddol ar sawl agwedd o lesiant gyda chymdeithasau mwy cyfartal yn profi gwell canlyniadau.
- Mae arwyddo'r Fargen Ddinesig o £1.2 biliwn gan y deg awdurdod lleol yn Ne-ddwyrain Cymru yn dod â chyfleoedd i drosoli o gwmpas buddsoddi pellach yn y sector preifat gan greu swyddi a hybu ffyniant economaidd ar draws y rhanbarth cyfan.

### Diffinio – Dadansoddiad o'r ymateb

Mae lleoliad Sir Fynwy'n cynnig cyfle unigryw i fwyhau'i phosibiliadau fel porth i Gymru o Loegr. Mae Sir Fynwy eisoes yn rhan o Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn ne-ddwyrain Cymru, tra dynodwyd gwella cysylltiadau gyda de-orllewin Lloegr fel cyfle i alluogi'r sir i ffynnu.

Mae tueddiadau'r dyfodol yn dynodi bod technoleg yn debygol o chwarae rôl arweiniol mewn llawer o swyddi, gan eu disodli mewn nifer o achosion. Bydd cysylltu busnes ag ysgolion, sicrhau addysg i bob oedran wedi'i theilwra ar gyfer y sgiliau y bydd angen ar bobl yn y dyfodol a deall y sgiliau presennol a'r sectorau twf posib yn helpu preswylwyr Sir Fynwy i fod yn fwy parod ac wedi cyfarwyddo â'r sgiliau sydd eu hangen yn lleol ac yn fyd-eang yn y dyfodol..

Mae seilwaith i gefnogi'r sir yn y dyfodol yn hanfodol. Deil signal a chyflymder band eang yn flaenoriaeth mewn rhai ardaloedd hyn Sir Fynwy. Mae trafndiaeth addas yn galluogi pobl i gael mynediad i swyddi, hyfforddiant, gwasanaethau a chyfleusterau, gyda gwahanol ardaloedd yn y sir yn wynebu gwahanol heriau. Gallai datrysiadau trafndiaeth yn y dyfodol, er enghraifft gyda thechnoleg ddi-yrwr yn cael ei threalu a datblygiadau technolegol eraill fod yn hollol wahanol yn y dyfodol ac mae angen cynllunio ar eu cyfer nawr. Mae trafndiaeth yn thema bwysig yn y Fargen Ddinesig.






Mae prisiau eiddo yn y sir yn uchel, mae ardal Cil-y-coed yn arbennig yn gweld effaith y bwriad i symud tollau Pont Hafren, a chaiff hyn effaith benodol ar bobl ifanc a hen bobl fel ei gilydd. Mae amrywiaeth o anghenion tai yn Sir Fynwy, ac mae angen gwell dealltwriaeth o'r gofynion

yn y dyfodol er mwyn ein helpu i flaengynllunio.

Mae busnesau yn Sir Fynwy yn llai yn gyffredinol, gan gyflogi llai na deg person. Bydd rhwydweithio, cyfathrebu ac ymgysylltu rhwng busnesau ac asiantaethau, gan gynnwys partneriaid y sector cyhoeddus yn help i gefnogi twf. Mae angen i benderfyniadau mwy gwybodus gael eu seilio ar well dealltwriaeth o anghenion busnes, y sectorau swyddi, y farchnad swyddi a gofynion sgiliau, tra defnyddir adnoddau'n effeithlon.

Mae Sir Fynwy'n adnabyddus am ei sectorau lletygarwch, amaethyddiaeth a thwristiaeth; sydd â'r potensial i fod yn ardaloedd twf, yn enwedig ar gyfer hyfforddiant arbenigol ar gyfer rhagoriaeth. Yn gysylltiedig â'r amcan "amgylchedd naturiol a newid hinsawdd", mae gan yr economi werdd hefyd y cyfle i dyfu yn Sir Fynwy,- dwy enghraifft o'r fath yw ynni adnewyddadwy a bwyd o ffynonellau lleol. Mae addasu i'r heriau y gallai newid hinsawdd gael ar ddiwydiannau megis cynhyrchu bwyd hefyd yn bwysig. Mae gan bartneriaid y sector cyhoeddus y cyfle i arwain y ffordd wrth brynu nwyddau a gwasanaethau lleol pryd bynnag bydd yn bosib..

### Cyfrannodd nodau llesiant at y canlynol

Cymru Lewyrchus	Cymru Gydnerth	Cymru Iachach	Cymru sy'n fwy Cyfartal	Cymru o gymunedau cydlynus	Cymru â diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
Bydd ByGC yn canolbwyntio ar y canlynol:				Cysylltiadau amcan		
Mwyhau cyfleoedd i Sir Fynwy fel rhan o'r Fargen Ddinesig						
Gwell dealltwriaeth o waith yn y dyfodol a sicrhau bod hyfforddiant ac addysg yn cysylltu â busnes i ddynodi'r sgiliau sydd eu hangen yng ngweithlu Sir Fynwy nawr ac yn y dyfodol.						
Datblygu technolegau newydd ar gyfer gwella trafndiaeth wledig						
Hyrwyddo gwell rhwydweithio o fewn busnes i rannu gwybodaeth a mynediad i dechnoleg a chyfleoedd rhanbarthol i alluogi busnesau i dyfu.						
Ymchwilio i bosibiliadau sefydlu canolfannau arbenigol o ragoriaeth yn Sir Fynwy e.e. bwyd/lletygarwch, amaethyddiaeth, twristiaeth a thechnoleg.						

# Gwerthuso ac Adolygu

Mae'r ffocws ar Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol yn golygu y bydd angen i weithgareddau droi fwyfwy o gwmpas heriau tymor hir ar lefel gymunedol. Pan ymdrinnir â heriau cymdeithasol mwy cymhleth bydd yn cymryd mwy o amser i newid y gellir ei fesur ddigwydd a mwy o amser eto i allu gweld tystiolaeth o'r newidiadau hyn mewn ffordd ystyrllon. Golyga hyn y bydd angen i'r ffordd y mae Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus fesur a gwerthuso perfformiad ganiatáu i gynydd a cherrig milltir gael eu gwerthuso a'u craffu yn y tymor byr tra sicrhau hefyd y defnyddir y wybodaeth gywir i dracio cynnydd yn erbyn amcanion llesiant cymunedol tymor hir. Mae datblygu metrigau cywir llediant cymunedol yn broses barhaus i bartneriaid Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus ar lefel leol ynghyd ag ar draws ardal Gwent.

## Dangosyddion Cenedlaethol

Mae gan y dangosyddion cenedlaethol swyddogaeth arbennig wrth fesur y cynnydd a wnaed tuag at gyflawni nodau llesiant gan Gymru fel cyfangorff. Defnyddiwyd y dangosyddion hyd yn hyn i helpu Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus ddeall llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn yr asesiad llesiant.

Tra na fydd y dangosyddion cenedlaethol yn mesur perfformiad cyrff cyhoeddus unigol neu fyrddau'r gwasanaethau cyhoeddus, mae'n bwysig eu bod yn cael eu hystyried gan Fwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus i dracio cynnydd a wneir yn erbyn yr amcanion llesiant a lle mae data ar gael ar lefel leol gellir mesur y cynnydd a wnaed yn Sir Fynwy.

Bydd yr holl ddangosyddion cenedlaethol yn gymorth i fesur llesiant yn Sir Fynwy, ond rhai o'r dangosyddion sy'n benodol berthnasol yn Sir Fynwy yw'r canlynol:

<b>Dangosyddion cenedlaethol sy'n gysylltiedig â'r amcanion</b>
Disgwyliad oes hapus ar enedigaeth gan gynnwys y bwlch rhwng y llai difreintiedig a'r mwyaf difreintiedig.
Mesur datblygiad plant ifanc.
Canran y plant sydd â llai na dau ymddygiad dull o fyw iach (ddim yn ysmegu, yn bwyta pum ffrwyth / llysiuyn y dydd, byth/anaml yn yfed ac yn cwrdd â chanllawiau gweithgarwch corfforol).
Canran yr oedolion sydd â llai na dau ymddygiad dull o fyw iach (ddim yn ysmegu, yn bwyta pum ffrwyth / llysiuyn y dydd, byth/anaml yn yfed ac yn cwrdd â chanllawiau gweithgarwch corfforol).
Cyfartaledd sgôr pwyntiau wedi'i chapio disgyblion Blwyddyn 11, yn seiliedig ar eu 8 canlyniad arholiad gorau.
Canran yr oedolion â chymwysterau ar y gwahanol lefelau o'r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol.
Canran y bobl mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, wedi'i fesur ar gyfer grwpiau oedran gwahanol.
Gwerth Ychwanegol Gros (GYG) yr awr a weithiwyd (mewn perthynas â chyfartaledd y DU)
Incwm Gwario Gros y pen Aelwydydd .



Canran y busnesau sy'n weithredol yn arloesi.
Canran y bobl mewn cyflogaeth.
Canran y bobl sy'n byw ar aelwydydd mewn amddifadedd materol..
Lefelau llygredd nitrogen deuocsid (NO2) yn yr aer.
Maint (mewn MW) y cyfarpar ynni adnewyddadwy a osodwyd .
Crynodiad carbon a deunydd organig mewn pridd.
Ôl troed ecolegol
Canran yr anheddau gyda pherfformiad ynni digonol..
Canran y bobl sy'n fodlon â'u gallu i gyrraedd/gyrchu'r gwasanaethau a'r cyfleusterau sydd eu hangen arnynt.
Canran y bobl sy'n fodlon â'r ardal leol fel lle i fyw.
Canran y bobl sy'n Gwirfoddoli.
Canran y bobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon dair gwaith neu fwy bob wythnos.

## Mesur llesiant Cymunedau Hapus

Mae pum Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus o fewn rhanbarth Gwent wedi cytuno ar y cyd i ddefnyddio'r cyfryngau Cymunedau Hapus er mwyn mesur yn well, deall a gwella llesiant eu poblogaethau. Ar hyn o bryd mae mesur llesiant wedi'i gyfyngu'n bennaf i'r data a dderbyniwyd o gyfrifiad 2011 sydd heb fanylion llesiant, union amserau a'r manylder lleol sydd eu hangen i drwytho unrhyw ymgais i wneud penderfyniadau gwirioneddol..

Drwy ddefnyddio'r union gyfryngau ar draws Gwent fer fydd yn bosibl cymharu llesiant ar draws y rhanbarth ac yn erbyn unrhyw rannau eraill o'r DU. Gellir defnyddio'r cyfryngau i drwytho'r broses o wneud penderfyniadau ar lefel cymuned, ward, cymdogaeth neu ar raddfa awdurdod cyfan. Gellir gweld mwy o fanylion ar y cyfryngau ar [www.happycity.org.uk/measurement-policy/about-measurement-policy](http://www.happycity.org.uk/measurement-policy/about-measurement-policy)

Mae Cymunedau Hapus yn darparu dau gyfrwng: Mynegai Cymunedau Hapus sy'n mesur yr amodau lleol ar gyfer llesiant cymunedol a'r Pwls Hapusrwydd sy'n fesur o lesiant personol..

Mae'r *Mynegai Cymunedau Hapus* yn tynnu oddi ar nifer o ddangosyddion o amrywiol ffynonellau i ddeall ac asesu penderfynyddion lleol llesiant a lle i dargedu ymyriadau i greu'r amodau i bobl ffynnu. Cyn belled â phosib, mae'r dangosyddion yr un peth, neu'n gyfystyr â'r dangosyddion Saesneg fel y gellir tynnu cymariaethau gydag ardaloedd eraill, a fydd yn hynod ddefnyddiol i Sir Fynwy, o gofio pa mor agos yw i siroedd Lloegr..

Mae'r *Pwls Hapusrwydd* yn mesur realaeth fanwl llesiant personol mewn cymunedau ac mae'n cynnwys arolwg preswylwyr y disgwylir iddo ddigwydd yn Ionawr a Chwefror 2018.

Bydd Cymunedau Hapus yn sicrhau bod gennym sail tystiolaeth gadarn a chynhwysfawr i'n helpu i asesu llesiant o fewn Sir Fynwy. Dros amser bydd y cyfryngau'n ein darparu â'r gallu i asesu newidiadau mewn llesiant o ganlyniad i'r camau a gymerwyd.

## Cofnodi perfformiad a graddfeydd amser

Bydd partneriaid Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus ar y cyd yn cyn cymryd rôl arweiniol i gyflenwi a gwerthuso datblygiad y cynllun. Bydd Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus yn

cynhyrchu adroddiad blynyddol yn manylu ar weithgarwch y flwyddyn gyflawn. Bydd yr adroddiad yn cynnwys y camau a gymerwyd i gwrdd â'r amcanion ers cyhoeddi'r cynllun llesiant ac ystod o wybodaeth arall i werthuso cynnydd, gan gynnwys cynnydd yn berthnasol i'r dangosyddion cenedlaethol ac unrhyw wybodaeth arall ynghylch perfformiad a ddynodwyd yn y cynllun i asesu cynnydd wrth gyflenwi'r amcan. Bydd Pwyllgor Dethol Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus hefyd yn cymryd rôl arweiniol wrth graffu datblygiad a pherfformiad y cynllun.

# Beth sy'n Digwydd Nesaf?

---

## Datblygu'r Cynllun Llesiant ymhellach

Ar hyn o bryd nid yw'r camau yn y cynllun yn darparu manylion pellach ynghylch y camau a fydd yn cael eu cymryd, y graddfeydd amser, neu ynghylch pwy fydd yn eu cyflenwi, neu sut byddwn yn mesur os buom yn llwyddiannus. Mae nifer o'r camau a awgrymwyd yn heriol i fynd i'r afael â hwy ac yn hawlio newidiadau sylfaenol i'r ford mae gwasanaethau cyhoeddus yn gweithio gyda'i gilydd. Petai ByGC yn gallu dweud yn hyderus ar yr adeg hon yn union beth sydd angen ei wneud, hwyrach eu bod yn debygol o fod yn canolbwyntio mewn gwirionedd ar fwy o'r un peth a heb fwrw ymlaen i fynd i'r afael â materion tymor hir. Mae datblygu datrysiadau arloesol i heriau cymhleth a gweithio ar y cyd mewn ffyrdd newydd, effeithiol ac integredig yn cymryd amser, ac nid yw'r holl atebion gennym hyd yn hyn.

Rydym eisiau safbwyntiau aelodau'r cyhoedd, busnesau, y sector gwirfoddoli ac eraill ar yr amcanion a'r camau drafft. A yw pobl yn cefnogi'r camau arfaethedig? A oes awgrymiadau eraill neu unrhyw enghreifftiau gwych o rywle arall y dylem eu hymchwilio?

Yn ystod y cyfnod ymgynghori ar y Cynllun Llesiant bydd partneriaethau'r ByGC hefyd yn cynnal sesiynau i ymchwilio ymhellach a datblygu amcanion ByGC yn fanylach, gan adeiladu ar y gweithdai sydd eisoes wedi digwydd i ddatblygu'r amcanion a'r camau ymhellach, y bydd ByGC yn eu cymryd. Bydd yn hyn cynnwys:

- Ymchwilio ymhellach i achos sylfaenol y problemau/yr heriau.
- Dynodi modelu posib a allai'n helpu i ddeall yr heriau hyn yn well.
- Deall tueddiadau'r dyfodol a beth fydd y llwybrau arfaethedig i'n gwasanaethau os pery'r systemau fel y maent - a oes angen ymyrryd â systemau er mwyn gwella gwasanaethau?
- Deall beth fyddai agenda hollol ataliol yn ymdebygu a beth allai gyflawni – a ydym yn meddwl yn greadigol? A oes gennym uchelgais i wireddu newid?
- Deall rhyngddibyniaeth asiantaethau eraill.
- Ystyried a oes angen cymryd y camau ar draws yr holl sir neu ganolbwyntio ar ardaloedd daearyddol penodol.

Erbyn Ebrill 2018, pan gyhoeddir y Cynllun Llesiant terfynol – defnyddir hyn a'r safbwyntiau o'r ymgynghoriad i ddarparu manylion ychwanegol i ehangu ar y camau bras cyfredol.

## Gweithio gyda'n gilydd yn well fel ByGC i wneud i'r amcanion ddigwydd

Yn ystod haf 2017, cyhoeddodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol adborth ar Asesiadau Llesiant yng Nghymru. Yn ychwanegol, ceisiodd Sir Fynwy gyngor y Comisiynydd ar y Cynllun Llesiant oedd yn datblygu, a derbyniodd ymateb ysgrifenedig ym Medi 2017.


Mae'r ddwy ddogfen hon yn cynnwys cyngor ar y modd i sicrhau bod ByGC yn gweithio'n effeithiol ac yn gydweithredol, yn herio'r status quo a bod yn arloesol ei agwedd. Mae'r pwyntiau a amlinellir isod yn nodi rhai o'r meysydd mae ByGC Sir Fynwy wedi clustnodi i weithio'n well arnynt gyda'i gilydd:

- Galluogi cymunedau i helpu eu hunain e.e. nodi asedau lleol a'u datblygu yn ôl yr angen, datblygu pecynnau cymorth/arweinlyfrau
- Sicrhau y sefydlir cysylltiadau clir rhwng ByGC, Llywodraeth Leol, Cyngorau Tref a Chymuned a'r gymuned
- Datblygu cysylltiadau gwell rhwng gwasanaethau, sefydliadau a grwpiau cymunedol, i gyflenwi agwedd fwy cydgysylltiedig ac ataliol.
- Uno data, gwybodaeth a systemau i ganiatáu i asiantaethau gael gwell dealltwriaeth o heriau a manteisio ar gyfleoedd.
- Ymchwilio i'r posibilid o rannu adnoddau ariannol ac asedau i gyflenwi camau sy'n mynd i'r afael ag amcanion y cynllun llesiant.
- Dynodi cyfleoedd ar gyfer caffael y sector cyhoeddus i gefnogi'n well ddatblygu gwasanaethau a chynnyrch lleol.

## Y Broses Ymgynghori

Mae'r Cynllun hwn wedi cael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghori ar 13<sup>eg</sup> Tachwedd 2017. Bydd yr ymgynghori'n parhau am 12 wythnos ac yn ystod y cyfnod hwnnw gall pobl gyfrannu'u safbwyntiau a'u sylwadau drwy'r holiadur ar-lein, Made Open, Facebook neu Twitter. Gall pobl yn ogystal ysgrifennu atom â'u sylwadau neu gwblhau holiaduron papur yn yr Hybiau Cymunedol. Yn dilyn unrhyw newidiadau a wneir o ganlyniad i'r ymgynghori,, cytunir y Cynllun Llesiant gan Fwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus yn Ebrill 2018.

Gosodwyd y pedwar amcan ar he four objectives have been put on Monmouthshire Made Open, Sir Fynwy a dyma un ffordd y gall pobl gyfrannu i'r drafodaeth ac ymgynghori ar y Cynllun Llesiant: [monmouthshire.madeopen.co.uk/stream](http://monmouthshire.madeopen.co.uk/stream) Rhennir sylwadau ar Facebook a Twitter gan ddefnyddio #OurMonmouthshire. Bydd y drafodaeth hon yn parhau'n fyw tan ddiwedd y cyfnod ymgynghori.




Lle mae cyfleoedd yn codi, bydd hefyd gyflwyniadau i bartneriaethau a sefydliadau eraill er mwyn egluro'r broses hyd yn hyn a'r cyfleoedd i gymryd rhan yn y broses. Er enghraifft, mae Transition Chepstow wedi gwahodd staff cynnal ByGC i siarad mewn cyfarfod cyhoeddus ynghylch Aseidiadau Llesiant yn ystod y cyfnod ymgynghori.

Mae'r ddogfen allan i ymgynghoriad sy'n cau ar 7<sup>fed</sup> Chwefror 2018. Mae gennym ddiddordeb mawr yn eich meddyliau a'ch safbwyntiau ar y cynnwys. Gellwch gyfrannu mewn sawl ffordd:

- A fyddech gystal â chwblhau'r arolwg ar [www.monmouthshire.gov.uk/our-monmouthshire](http://www.monmouthshire.gov.uk/our-monmouthshire)
- Gellwch hefyd rannu'ch meddyliau ar [Monmouthshire Made Open](http://Monmouthshire Made Open)
- E-bost [improvement@monmouthshire.gov.uk](mailto:improvement@monmouthshire.gov.uk)
- Ysgrifennwch at: Y Tîm Polisi a Pherfformiad, Cyngor Sir Fynwy, Neuadd y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, Sir Fynwy, NP15 1GA

# Atodiad 1 - Strwythur Partneriaeth



# Atodiad 2 – Datblygu Asesiad Llesiant

---

## Proffil Sir Fynwy

Wedi'i lleoli yn Ne-ddwyrain Cymru, mae i Sir Fynwy safle strategol rhwng y prif ganolfannau yn Ne Cymru a De-ddwyrain Lloegr a chanolfannau poblogaeth megis Caerdydd, Casnewydd a Bryste ac mae llawer o'r boblogaeth yn manteisio ar y cysylltiadau hynny i gymudo allan o Ganolbarth Lloegr. Mae'r sir yn cwmpasu arwynebedd o oddeutu 880 o gilometrau sgwâr gyda phoblogaeth amcangyfrifedig o 92,476.

Mae'n sir wledig yn bennaf. Mae 53% o gyfanswm y boblogaeth yn byw mewn wardiau a ddiffinnir fel ardaloedd trefol. Y prif aneddiadau yw Y Fenni, Cas-gwent, Trefynwy, Cil-y-coed, Brynbuga a Magwyr/Gwndy. Mae gan y sir hunaniaeth unigryw yn codi o'i lleoliad yn y gororau rhwng Lloegr a chyn fröydd diwydiannol cymoedd De Cymru. Cwyd elfen gyfannol patrwm anheddiad unigryw Sir Fynwy o'i threfi a'i phentrefi marchnad hanesyddol a'u perthynas â'r ardaloedd gwledig o gwmpas.

Mae gan y sir dirwedd gyfoethog ac amrywiol yn ymestyn o forlin Lefelau Gwent yn y de i ucheldiroedd Bannau Brycheiniog yn y gogledd a choridor afon prydferth Dyffryn Gwy yn y dwyrain. Mae rhwydwaith heolydd da yn cysylltu Sir Fynwy â'r prif ardaloedd ar gyfer cyfleoedd cyflogaeth.

Mae gan Sir Fynwy adnoddau tirwedd pwysig ac mae'n gartref i dirweddau dynodedig yn rhyngwladol ac yn genedlaethol yn amrywio o AHNE Dyffryn Gwy yn y dwyrain a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a Safle Treftadaeth Diwydiannol y Byd Blaenafon i'r gogledd-orllewin. Mae'n cynnwys peth tir amaethyddol o ansawdd dda ac mae ganddi gyfran uchel o dir ffermio - mwy na dwbl y cyfartaledd Cymreig gyda 16.7% o'r tir hwn yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cnydau a garddwriaeth.

Mae gan y sir ddwysedd poblogaeth isel o 1.1 person yr hectar - yn sylweddol is na'r cyfartaledd ar gyfer De-ddwyrain Cymru o 5.3 person yr hectar gyda'r dwysedd yn uwch o lawer mewn ardaloedd trefol. Mae cyfartaledd uwch nag arfer o bobl hŷn yn y sir ac argoelir y bydd y ffigur hwn yn codi eto. Yn gyferbyniol argoelir y bydd y nifer dan 18 oed yn lleihau erbyn 2036.

Mae Sir Fynwy'n gyffredinol yn ardal lewyrchus yn cynnig bywyd o ansawdd uchel i'w phreswylwyr. Adlewyrchir hyn yn y Mynegrif Amddifadedd Lluosog ar gyfer Cymru 2014 heb unrhyw un o'r Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHI) yn Sir Fynwy yn yr 20% mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Fodd bynnag, fel y tynnwyd sylw ato mewn man arall yn yr asesiad hwn, gall y ffigurau pennawd hyn guddio pocedi o amddifadedd sy'n llymach o lawer pan osodir hwy ochr yn ochr ag ardaloedd o gyfoeth cymharol.

## Cymunedau Sir Fynwy

Yn ddaearyddol mae Sir Fynwy'n fawr o gymharu â nifer o ardaloedd awdurdodau lleol eraill yng Nghymru. Mae'n lled-wledig o ran natur ac yn aml fe'i canfyddir fel sir ddeiliog a chyfoethog. Fodd bynnag gall ystadegau pennawd fethu â thaflu goleuni ar y gwahaniaethau o fewn a rhwng cymunedau. Gall y gwahaniaethau hyn fod gymaint yn fwy llym pan fodolant ochr wrth ochr.



Wrth asesu llesiant pob cymuned bwriedir sicrhau bod y gwahaniaethau rhwng yr amrywiol gymunedau o fewn ardal y bwrdd yn cael eu dadansoddi.

Seiliwyd yr asesiad llesiant o gwmpas pum clwstwr, fel y dangosir ar y map: Y Fenni a'r ardaloedd o gwmpas; Trefynwy a'r ardaloedd o gwmpas; calon Sir Fynwy sy'n cynnwys Brynbuga a Rhaglan; Cas-gwent a Dyffryn Gwy Isaf a Glan Hafren sy'n cynnwys Cil-y-coed a Magwyr. Mae datblygiad yr amcanion llesiant wedi ystyried materion ar y lefel hon neu ar lefel ward neu Lefel Cynnyrch Ehangach Is (CEI).

### Yr Asesiad Llesiant

Paratodd a chyhoeddodd Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus asesiad o gyflwr llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn ei ardal ym Mawrth 2017<sup>2</sup>. Mae hwn yn darparu'r dystiolaeth y mae ByGC wedi gwneud penderfyniadau arni ynghylch yr hyn sydd angen iddo flaenoriaethu.




Mae'r asesiad yn nodi cryfderau a rhinweddau pobl a'u cymunedau yn hytrach na chanolbwyntio'n unig ar angen. Mae agwedd sy'n seiliedig ar gryfderau'n cydnabod cyfraniad unigolion, mudiadau cymunedol a pherthnasau. Caiff yr asesiad ei adeiladu o ystod eang o ffynonellau gan gynnwys data cyfrifiad a data ystadegol; tystiolaeth ansoddol sy'n casglu safbwyntiau a chanfyddiadau pobl ynghyd â rhoddi cyd-destun i ddata meintiol ac ymchwil academiaidd. Gwneir cymariaethau hefyd gydag elfennau daearyddol eraill, weithiau o fewn y sir ac weithiau ar lefel ranbarthol neu genedlaethol.

Mae cydweithredu'n egwyddor bwysig o Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol. Gweithiodd Byrddau'r Gwasanaethau Cyhoeddus gyda'i gilydd i sicrhau bod peth cysondeb yn y data a ddefnyddiwyd, gan fod nifer o'r partneriaid cysylltiedig megis Heddlu Gwent a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn rhychwantu pum ardal gyfan y cyngor yng Ngwent. Comisiynwyd Uned Ddata Cymru i gynhyrchu carfan o eitemau crasid ac ategwyd hyn yn lleol â data o ystod eang o wasanaethau. Chwaraeodd holl bartneriaid ByGC rôl hanfodol yn cyflenwi data i drwytho'r asesiad, a gellwch weld y data hyn drwy gydol yr Asesiad Llesiant.

Cyflawnwyd ymarfer ymgysylltu cymunedol eang yn dwyn yr enw *Ein Sir Fynwy* i brofi a oedd y data'n adlewyrchu profiadau gwirioneddol bywyd pobl Rhwng Awst a Rhagfyr 2016 mynychodd staff o ystod o bartneriaid ByGC yn Sir Fynwy dros 80 o ddiwyddiadau yn siarad â dros fil o bobl i gael eu safbwyntiau ar yr hyn sy'n dda am Sir Fynwy a beth fyddai'n gwneud y sir yn well. Defnyddiwyd arddangosfeydd gweledol yn cynnwys mapiau a chardiau post ar dueddiadau'r dyfodol i helpu pobl i feddwl ynghylch fel yr hoffent i Sir Fynwy fod yn y tymor hir a llunio'r cwestiynau o fewn cyd-destun ehangach. Mae'r siart isod yn dangos y pynciau y soniodd pobl amdanynt amlaf.

Graff 1: Ymatebion Ymgysylltu Ein Sir Fynwy yn ôl categori



Bu cael pobl o groestoriad mor eang â phosib o'r gymuned yn ganolbwynt yr ymgysylltu. Pwysleisiodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru a Chomisiynydd Plant Cymru bwysigrwydd sicrhau bod lleisiau pobl hŷn a phobl iau yn cael eu clywed felly gwnaed pob ymdrech i sicrhau ein bod yn cael yr hen a'r ifanc a phobl â nodweddion gwarchoddedig i ymgysylltu.

Ffurfiodd adroddiadau academiaidd a phapurau polisi ran allweddol yn ein hasesiad hefyd er mwyn deall y data a'r materion yn ddyfnach a dynodi materion a chyfleoedd changach. Mae'r asesiad yn cynnwys rhai rhagfynegiadau hefyd o dueddiadau tebygol y dyfodol mewn llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yr ardal gan ddefnyddio ystod o ymchwil cenedlaethol a gwybodaeth leol.

Mae Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol yn pwysleisio pwysigrwydd gweithio mewn ffordd integredig a chydgyssylltiedig. Mae'n bwysig nad ymdrinnir â materion neu broblemau ar wahân ac mae'r asesiad yn dynodi'r integreiddio rhwng llesiant amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol, er enghraifft, gall yr amgylchedd gael effaith gadarnhaol neu negyddol ar iechyd, a gall diwylliant a threftadaeth gyfrannu'n sylweddol at yr economi.

Sefydlwyd Bwrdd Golygu o aelodau'n cynrychioli partneriaid ByGC i arolygu cynhyrchu'r asesiad hwn, sicrhodd hyn y rhoddwyd sylw i faterion allweddol a sicrhau bod yr asesiad yn adlewyrchu holl agweddau llesiant.


# Atodiad 3 – Methodoleg ar gyfer datblygu'r Cynllun Llesiant

Yn dilyn cwblhau'r Asesiad Llesiant, mae nawr yn ofynnol i Fwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus baratoi a chyhoeddi cynllun llesiant lleol yn amlinellu'i amcanion lleol a'r camau y bydd yn eu cymryd i gwrdd â hwy.

Roedd yn hanfodol cael proses lem yn ei lle wrth symud o Asesiad Llesiant i Gynllun Llesiant er mwyn sicrhau bod yr amcanion a ddewiswyd gan Fwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus wedi'u trwytho'n llawn a'u ffurfio gan y dystiolaeth a gynhyrchwyd gan yr Asesiad Llesiant a chymryd agwedd integredig at gyflenwi nodau llesiant. Mae'n rhaid mai'r rhain yw'r materion lle penderfynir y gellir cymryd camau gweithredu ar y cyd a gaiff effaith gadarnhaol ar lesiant yn yr ardal.


Mae'r broses rydym wedi'i defnyddio wedi dilyn yr agwedd 'ddwbl ddiamwnt'<sup>3</sup> a ddangosir isod, mae hon yn cael ei rhannu'n bedwar cyfnod penodol – Darganfod, Diffinio, Datblygu a Chyflenwi (gweler Ffigur 3).

Ffigur 3: Agwedd “ddwbl diamwnt” y Cyngor Dylunio



Mae'r Cyngor Dylunio'n egluro “Ym mhob proses greadigol creir nifer o syniadau posib (‘meddwl dargyfeiriol’) cyn coethi a disodli syniadau'n raddol nes cyrraedd y syniad gorau (‘meddwl cydgyfeiriol’), a gellir cynrychioli hyn gan siâp diamwnt. Ond mae'r Ddwbl Diamwnt yn dangos bod hyn yn digwydd ddwywaith - unwaith i gadarnhau diffiniad y broblem ac unwaith i greu'r datrasiad. Un o'r camgymeriadau mwyaf yw hepgor y ddiamwnt ar y llaw chwith a diweddu'n datrys y broblem anghywir”. Tynnodd ByGC hefyd ar y Fframwaith Cynefin ac mae Ffigur 4 yn egluro'r broses a gyflawnir i ddatblygu'r amcan hwn:

Ffigur 4: Proses ByGC ar gyfer datblygu amcanion



Ymgorfforodd yr Asesiad Llesiant ddata corfforaethol; tueddiadau'r dyfodol ac ymchwil i ddarparu mewnwelediad i mewn i'r problemau a'r cyfleoedd (y cyfnod Darganfod).

Casglwyd y rhain i mewn i ddiffiniadau cryno o broblemau a datganiadau o gyfle (y cyfnod Diffinio). Geilw'r cyfarwyddyd statudol ar gyfer Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol hwn yn gyfnod y *Dadansoddi Sefyllfa*.

Datblygwyd yr heriau a'r cyfleoedd i mewn i'r pedwar amcan (gweler isod am fwy o fanylion) ac mae ByGC ar hyn o bryd yn ail gyfnod y gwaith - a elwir yn *Ddadansoddi Ymateb* - edrych ar y modd i ddynodi a datblygu datrysiadau posib. Gallai hyn fod yn gymysgedd o fabwysiadu arfer dda brofedig o fan arall a dilyn datrysiadau mwy arloesol pan fydd problemau'n fwy cymhleth neu'n anhyblyg. Bu gweithdy a gynhaliwyd ym mis Hydref 2017 i Fwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus, partneriaid ehangach ac arbenigwyr diwydiant i ddechrau datblygu datrysiadau posib yn rhan allweddol o'r cyfnod Datblygu.

Mae'r adran hon yn rhoddi mwy o fanylion ar gyfnodau'r broses a gymerwyd gan Fwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus o Asesiad Llesiant i Gynllun Llesiant. Crynhoir y camau a gymerwyd yn Ffigur 2.

## O asesiad lesiant i amcanion lesiant

Tynnodd yr Asesiad Llesiant, a gymeradwywyd gan Fwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus ym Mawrth, yr heriau a'r materion allweddol ar gyfer Sir Fynwy. Casglwyd y rhain o ymgysylltiad eang drwy broses ymgysylltu *Ein Sir Fynny*, data, tueddiadau'r dyfodol, ymchwil academiaidd a phapurau polisi.

Yna heriwyd a choethwyd yr heriau a'r materion allweddol hyn yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus yn Ionawr a Chwefror 2017, archwiliwyd hwy gan Bwyllgor Craffu ByGC ac fe'u hymchwiliwyd a'u coethi mewn sesiwn gweithdy hyrwyddedig a fynychwyd gan holl aelodau ByGC.

Mae'r holl heriau'n bwysig ac fe fydd angen mynd i'r afael â hwy., ond nid o angenrheidrwydd gan Fwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus - bydd cyrff cyhoeddus unigol neu bartneriaethau'n mynd i'r afael â rhai, eraill gan ddim ond un neu ddwy asiantaeth yn gweithio ar y cyd a rhai ar raddfa ranbarthol fwy megis Gwent neu'r Ddinas-Ranbarth. Edrychodd cyfarfod pellach o Fwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus ym Mawrth 2017 ar yr heriau hyn yn fanylach, i ddechrau'r broses o ddatblygu amcanion a fydd yn canolbwyntio ar y Cynllun Llesiant sydd ar y gorwel a gweithio dros y blynyddoedd i ddod. Dechreuodd y partneriaid yn y gweithdy ddatblygu pa rai o'r heriau y teimlent allai fod yn ganolbwynt posib i Fwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus yn seiliedig ar y dystiolaeth a gyflwynwyd yn yr Asesiad Llesiant, aliniad gydag amcanion llesiant eu sefydliad eu hunain, a blaenoriaethu a chlustnodi materion na ellir mynd i'r afael â hwy'n llwyddiannus ond drwy weithio ar y cyd.

Yn dilyn arwyddo cwblhau'r Asesiad Llesiant gan Fwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus ym Mawrth 2017, gofynnwyd i swyddogion cymorth ByGC a thraws Fwrdd Golygyddol ByGC edrych ar y 17 o heriau a chyfleoedd yng nghasgliadau'r Asesiad. Rhoesant ystyriaeth i fframwaith dadansoddiad Cynefin o'r materion hyn a gyflawnwyd sesiwn her ByGC/Bwrdd Rhaglenni yn Chwefror a gofynnwyd iddynt eu datblygu i mewn i nifer o amcanion i'w dwyn i ystyriaeth y Bwrdd Rhaglenni.

Drwy'r broses, datblygwyd "rhestr hir" o 9 amcan. Mae'r rhain yn Atodiad 4. Amrywiau'r amcanion drafft o'r bras iawn i'r gweddol benodol. Ar gyfer pob amcan drafft, rhestrwyd y canlynol:

- Pa bartneriaid ByGC oedd wedi datgan buddiant mewn blaenoriaethu'r amcan hwn
- Pa rai o'r 17 o heriau a chyfleoedd o'r Asesiad Llesiant y byddai'r amcan hwn yn mynd i'r afael â hwy
- Ar ba lefel y gellid/dylid mynd i'r afael â'r amcan hwn: Sir Fynwy, Gwent, Prifddinas-Ranbarth Caerdydd
- At ba rai o'r 7 nod llesiant cenedlaethol y byddai'n cyfrannu atynt

Ar ba amcanion bynnag y penderfynodd ByGC ganolbwyntio arnynt yn y Cynllun Llesiant, fe fydd rhai themâu trawstoriadol y bydd yn rhaid eu hystyried. Bydd angen cymhwyso'r pum ffordd o weithio (tymor hir, integreiddio, cydweithredu, ymgysylltu ac atal) i bopeth a wna ByGC. Mae hefyd themâu trawstoriadol pwysig a gododd drwy'r Asesiad Llesiant y bydd angen eu hystyried megis yr angen i amddiffyn yr amgylchedd, lleihau allyriadau carbon a defnyddio cyfalaf cymdeithasol a gwirfoddoli.

Dadleuwyd yr amcanion drafft hyn gan y Bwrdd Rhaglenni yng Ngorffennaf 2017. Cytunodd y Bwrdd Rhaglenni eu pwrpas o **adeiladu cymunedau cynaliadwy a chydnerth**, tri dyhead

trawstoriadol a fydd yn gymwys ar gyfer yr holl amcanion a'r camau, a phedwar amcan llesiant = dau ynghylch pobl a dau ynghylch lle. Crynhoir yr amcanion hyn isod:

<b>Pwrpas</b>	<b>Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy a Chydnerth</b>	
<b>Ein Dyhead yw:</b>	Lleihau anghydraddoldebau rhwng cymunedau ac o fewn cymunedau Cefnogi ac amddiffyn pobl sy'n agored i niwed Gwireddu'r buddion sydd gan yr amgylchedd naturiol i'w cynnig	
<b>Ein Hamcanion Llesiant yw:</b>	<i>Pobl / Dinasyddion</i>	<i>Lle / Cymunedau</i>
	Darparu'r dechrau gorau posib mewn bywyd i blant a phobl ifanc	Amddiffyn a gwella gwytnwch ein hamgylchedd naturiol tra rhwystrir ac addasir i effaith newid hinsawdd
	Ymateb i'r heriau sy'n gysylltiedig â newid demograffig	Datblygu cyfleoedd i gymunedau a busnesau fod yn rhan o sir sydd â chysylltiadau da ac sy'n ffynnu'n economaidd.

Unwaith roedd y Bwrdd Rhaglenni wedi cytuno'r amcanion hyn, gweithiodd staff cymorth ByGC gyda phob un o bartneriaid ByGC i gyflwyno'r amcanion drafft iddynt i gwblhau'r amcanion a sicrhau eu bod yn cydweddu'n ddigonol ag amcanion llesiant eu sefydliadau eu hunain. Mae'r amcanion drafft yn cysylltu'n dda â dyheadau'r partneriaid eu hunain, gweler

Atodiad 5 am gymhariaeth o amcanion partner ByGC. Cytunwyd y 4 amcan wedyn gan Fwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus yng Ngorffennaf 2017.

## **O amcanion llesiant i weithredu**

Mae'n bwysig manteisio ar brofiadau a phersbectif sylfaenol llawer o bartneriaethau amlasiantaethol Sir Fynwy i helpu i drwytho ByGC fel y gweithiant i symud o amcanion i weithredu. Cynhaliwyd tri gweithdy yn Awst i bob un o aelodau'r bartneriaeth eu mynychu. Gofynnwyd iddynt ddynodi, yn eu barn hwy, beth yw'r 3 neu 4 her sy'n gysylltiedig â'r amcanion hyn y byddent yn hoffi i Fwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus fod yn ymwybodol ohonynt. Bwydwyd y wybodaeth hon i mewn i weithdy ByGC ym mis Hydref 2017, i sicrhau eu bod yn deall yr heriau gwirioneddol sy'n wynebu unigolion a sefydliadau yn y sir. Roedd ByGC yn gallu defnyddio'r wybodaeth hon, ynghyd â thystiolaeth o'r Asesiad Llesiant i helpu i benderfynu ar y blaenoriaethau ar gyfer y Cynllun Llesiant.

Ar 9<sup>fed</sup> Hydref 2017, daeth oddeutu 60 o bartneriaid ac arbenigwyr maes busnes ynghyd i ystyried lle maent yn dymuno i Sir Fynwy fod mewn cenhedlaeth o nawr, pwy sydd angen bod yn gysylltiedig os ydym i fod yno a beth sydd angen digwydd i gyrraedd y weledigaeth hon.

Yn y bore rhannodd y cynrychiolwyr i bedwar gweithdy, un ar gyfer pob amcan, a chanolbwyntiodd y drafodaeth ar ddatblygu gweledigaeth ar gyfer yr amcan: beth fydd pobl yn ei wneud yn y dyfodol nad ydynt yn ei wneud nawr; beth na fyddant yn ei wneud a phwy fydd yn gysylltiedig â'n cael yno. Yna canolbwyntiodd y gweithdai ar yr hyn sydd angen digwydd i ddod i'r pwynt hwn.



Yna symudodd cynrychiolwyr i weithdy gwahanol ac roeddent yn gallu cyfrannu persbectif




gwahanol i drafodaeth y bore yn seiliedig ar eu harbenigedd. Roedd hwn yn ymarfer buddiol wrth helpu i dynnu allan themâu tebyg, a golygai fod y pedwar amcan yn cael eu hystyried mewn modd integredig a heb fod ar wahân.

Yn olaf symudodd y cynrychiolwyr yn ôl i'w gweithdy cychwynnol, wedi adolygu allbwn pob

grŵp, i ddynodi beth yw'r "gemau" neu'r "hadau posibilrwydd" o fewn y cyfoeth o ddeunydd sydd wedi'i gasglu.

Ysgrifennwyd i fyny allbynnau'r gweithdy ac fe'u dadansoddwyd, a ffurfiodd y "gemau" a drafodwyd yn y sesiwn derfynol sylfaen y camau yn y Cynllun Llesiant hwn.

Cipiodd Fran O'Hara naws y cyflwyniadau'n raffigol ac mae yn yr un modd wedi cipio pwyntiau allweddol y trafodaethau gweithdy:





# Atodiad 4 – Amcanion Posib a Ystyriwyd

Rhai Amcanion Posib →	Lleihau anghyfartaledd rhwng cymunedau ac o fewn cymunedau	Cefnogi ac amddiffyn pobl sy'n agored i niwed	Datblygu cyfleoedd i gymunedau a busnesau fod yn rhan o sir sydd â chysylltiadau da ac sy'n ffynnu'n economaidd	Darparu'r dechrau gorau posib mewn bywyd i blant a phobl ifanc	Ymateb i'r heriau sy'n gysylltiedig â newid demograffig	Amddiffyn a gwella gwytnwch ein hamgylchedd naturiol ar gyfer y cenedlaethau presennol a chenedlaethau'r dyfodol (newydd)	Lleihau effeithiau newid hinsawdd ac addasu iddynt	Cynyddu gweithgarwch corfforol	Gwella trafndiaeth gyhoeddus a dewisiadau trafndiaeth amgen i leihau nifer y siwrneiau ceir	
Graddfa'r amcan	Bras ←		Diffiniedig				→ Penodol			
Pwy sydd wedi datgan buddiant mewn blaenoriaethu hwn?	CSF PCC GTacADC BIPAB	CTSF CSF CTSF GTacADC BIPAB Heddlu Gwent Llywodraeth Cymru	CSF CNC CTSF	PCC CSF GTacADC BIPAB	GTacADC ICC CTSF	CNC CSF	CNC ICC	PCC CNC ICC BIPAB	BIPAB	
Mae'r amcanion yn drawstoriadol iawn a gallent ddod â manteision i lawer o'r heriau allweddol eraill a ddynodwyd yn yr Asesiad Llesiant. Dengys y canlynol yr heriau mwyaf allweddol yr effeithir arnynt gan yr amcanion a awgrymwyd.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Trafnidiaeth</li> <li>Lefelau Cyflog / Tai Fforddiadwy</li> <li>Y Fargen Ddinesig / Ffyniant Economaidd</li> <li>Y mil o ddiwrnodau cyntaf</li> <li>ACES</li> <li>Pobl Agored i Niwed</li> <li>Y Celfyddydau a Diwylliant</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Lefelau cyflog / Tai Fforddiadwy / cymunedau cynaliadwy</li> <li>Anghydraddoldeb</li> <li>Y mil o ddiwrnodau cyntaf</li> <li>ACES</li> <li>Pwysau ar iechyd a gofal cymdeithasol gan boblogaeth sy'n heneiddio</li> <li>Pobl Agored i Niwed</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Trafnidiaeth</li> <li>Lefelau cyflog / Tai Fforddiadwy Cymunedau Cynaliadwy</li> <li>Anghydraddoldeb</li> <li>Y Fargen Ddinesig / Ffyniant Economaidd</li> <li>Y Celfyddydau a Diwylliant</li> <li>Llygredd Aer</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Lefelau Cyflog / Cymunedau Cynaliadwy</li> <li>Anghydraddoldeb</li> <li>Patrymau cyflogaeth a thechnoleg newidiol</li> <li>Y mil o ddiwrnodau cyntaf</li> <li>Profiadau Plentyndod Andwyol</li> <li>Pobl Agored i Niwed</li> <li>Addysg Cyfrwng Cymraeg</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Lefelau cyflog / Tai Fforddiadwy / cymunedau cynaliadwy</li> <li>Patrymau cyflogaeth a thechnoleg newidiol</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Trafnidiaeth / Ffyniant Economaidd</li> <li>Gweithgarwch corfforol yn lleihau a gordewdra'n codi</li> <li>Llygredd Aer</li> <li>Ansawdd dŵr</li> <li>Newid Hinsawdd a Gwytnwch Amgylcheddol</li> <li>Cyfalaf cymdeithasol a gwirfoddoli</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Trafnidiaeth</li> <li>Y Fargen Ddinesig / Ffyniant Economaidd</li> <li>Pwysau ar iechyd a gofal cymdeithasol gan boblogaeth sy'n heneiddio</li> <li>Llygredd aer</li> <li>Newid Hinsawdd a Gwytnwch Amgylcheddol</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Trafnidiaeth</li> <li>Y mil o ddiwrnodau cyntaf</li> <li>ACES</li> <li>Gweithgarwch corfforol yn lleihau a gordewdra'n codi</li> <li>Pwysau ar iechyd a gofal cymdeithasol oddi wrth boblogaeth sy'n heneiddio</li> <li>Llygredd Aer</li> <li>Newid Hinsawdd a Gwytnwch Amgylcheddol</li> <li>Cyfalaf cymdeithasol a gwirfoddoli</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Trafnidiaeth</li> <li>Lefelau cyflog / Tai Fforddiadwy / cymunedau cynaliadwy</li> <li>Anghydraddoldeb</li> <li>Y Fargen Ddinesig / Ffyniant Economaidd</li> <li>Patrymau cyflogaeth a thechnoleg newidiol</li> <li>Y mil o ddiwrnodau cyntaf</li> <li>Gweithgarwch corfforol yn lleihau a gordewdra'n codi</li> <li>Llygredd Aer</li> <li>Newid Hinsawdd a Gwytnwch Amgylcheddol</li> </ul>	
Ar ba lefel y gellid/dylid mynd i'r afael ag elfennau o hyn?	Gwent Sir Fynwy	Gwent Sir Fynwy	Prifddinas -Ranbarth Caerdydd Sir Fynwy	Gwent Sir Fynwy	Sir Fynwy	Gwent Sir Fynwy	Prifddinas - Ranbarth Caerdydd Gwent Sir Fynwy	Gwent Sir Fynwy	Prifddinas -Ranbarth Caerdydd Sir Fynwy	
Yn cydweddu â 7 nod cenedlaethol llesiant.	Ffyniannus, Iachach, Cyfarta, Cymunedau,	Ffyniannus, Iachach, Cyfarta, Cymunedau	Ffyniannus, Cyfarta, Cymunedau, Diwylliant	Ffyniannus, Iachach, Cyfarta, Diwylliant	Ffyniannus, Cydnerth, Cyfarta, Iachach, Cymunedau	Cydnerth, Cyfarta, Iachach, Cymunedau, Diwylliant, Bydeang, Ffyniannus,	Ffyniannus, Cydnerth, Iachach, Bydeang	Cydnerth, Iachach, Cymunedau, Diwylliant, Bydeang	Ffyniannus, Cydnerth, Iachach, Cymunedau, Bydeang	

## Atodiad 5 – Cymharu amcanion llesiant partneriaid ByGC

Llywodraeth Cymru	Cyngor Sir Fynwy	Tân ac Achub De Cymru	Cyfoeth Naturiol Cymru	Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	Iechyd Cyhoeddus Cymru	Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu	Landlordiaid Cofrestredig Cymdeithasol
Creu anodau i roddi'r dechrau gorau posib mewn bywyd i bob plentyn.	Darparu'r dechrau gorau posib mewn bywyd i blant a phobl ifanc			Cefnogi pob rhiant sy'n disgwyl plentyn a rhoddi i bob plentyn yng Ngwent y gefnogaeth i sicrhau'r dechrau gorau posib mewn bywyd	Rhoddi i'n plant y dechrau gorau posib mewn bywyd gan gynnwys cyfleoedd i dyfu, chwarae a dysgu mewn amgylchedd iach a diogel		
Gwella canlyniadau addysg i bawb a lleihau'r bwch mewn canlyniadau i wahanol grwpiau							
Helpu pobl i fyw bywydau iach ac annibynnol a chefnogi gweithlu iach.	Mwyhau'r posibiladau yn ein cymunedau i wella llesiant i bobl ar hyd cwrs eu bywyd		Helpu pobl i fyw bywydau iachach a mwy bodlon	Cefnogi oedolion a phlant yng Ngwent i fyw'n iach a heneiddio'n dda, fel y gallant gadw'u hannibyniaeth a mwynhau bywyd o ansawdd uchel i mewn i hen oed  Hyrwyddo llesiant meddyliol fel sylfaen i iechyd, adeiladu gwytnwch personol a chymunedol  Cynllunio a sicrhau gwasanaethau gofal iechyd cynaliadwy a hygyrch, yn amrywio o atal drwyddo i driniaeth, ailsefydlu ac adferiad sy'n cwrdd ag anghenion cyfredol ac anghenion y dyfodol ac yn mynd i'r afael ag anghyfartaledd mewn iechyd a lefelau gwahanol o angen ar draws ein cymunedau.	Adeiladu cynhwysiant a chefnogi newid mewn systemau er mwyn amddiffyn a gwella iechyd a lleihau anghydraddoldebau  Cefnogi'r GIG i gyflenwi gwasanaethau o ansawdd uchel, sy'n gyfartal a chynaliadwy ac yn cwrdd ag anghenion dinasyddion ym mhob cyfnod mewn bywyd		
Gwella ffyniant i bawb ar draws Cymru, helpu pobl i mewn i gyflogaeth a swyddi.							Helpu pobl i mewn i waith (CTSf)  Creu cyfleoedd i breswylwyr a chymunedau (Melin)
Creu'r amodau i bobl ddysgu a defnyddio'r iaith Gymraeg gyda'u teuluoedd, yn eu cymunedau ac yn y gweithle.				Hyrwyddo gweithlu amrywiol sy'n gallu mynegi'u treftadaeth ddiwylliannol, gyda chyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle			
Cefnogi'r pontio i gymdeithas garbon isel a hinsawdd wydn.				Lleihau'n effaith negyddol amgylcheddol drwy raglen gyfrifol o adeiladu cyfalaf ac agwedd gynaliadwy at ddarparu gwasanaethau adeiladu gan gynnwys; rheoli carbon a gwastraff, ymgymryd â chaffael ar sail cost cylch-bywyd cyfan a chefnogi ffynonellau lleol, hyrwyddo teithio cynaliadwy a llesol a gwella iechyd amgylcheddol			Lleihau ôl troed CO2
Cysylltu cymunedau drwy seilwaith cynaliadwy a chydnerth.							
Cefnogi cymunedau diogel, cydlynus a chydnerth.		Lleihau perygl	Lleihau'r perygl i bobl a chymunedau o drychinebau amgylcheddol megis		Lleihau peryglon iechyd cyhoeddus o glefydau cyfredo a chlefydau sy'n codi, trychinebau amgylcheddol ac achosion brys	Gweithredu i atal a lleihau troseddu drwy weithio gyda sefydliadau partner a	

			llifogydd a llygredd			<p>chymunedau i fynd i'r afael â throeddau sy'n cyflwyno'r bygythiad, y niwed a'r perygl mwyaf ac yn enwedig y troeddau hynny a gyflawnir yn erbyn y mwyaf agored i niwed.</p> <p>Darparu cefnogaeth arbennig i holl ddiodefwyr troedd gan ganolbwyntio'n benodol ar atal niwed difrifol pellach.</p> <p>Sicrhau bod yr heddlu'n gweithio'n glos gyda sefydliadau partner i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn effeithiol.</p>	
Gwella mynediad i gartrefi diogel, effeithlon a fforddiadwy.							<p>Fel Landlord: Datblygu/adeiladu cartrefi, cefnogi tenantiaid (CTSF)</p> <p>Bod yn landlord ardderchog, adeiladwr cartrefi (Melin)</p>
Hybu amodau ar gyfer cyflogaeth a datblygiad economaidd cynaliadwy, tra ysgogir mentergarwch a thwf ar gyfer economi fodern, garbon isel.	Datblygu cyfleoedd i gymunedau a busnesau sicrhau sir ffyniannus sydd â chysylltiadau da		Hyrwyddo busnesau llwyddiannus a chyfrifol, gan ddefnyddio adnoddau naturiol heb eu difetha				
Hyrwyddo a chyfoethogi treftadaeth ddiwylliannol Cymru.							
Rheoli, defnyddio a gwella adnoddau naturiol Cymru i gefnogi llesiant tymor hir.	Mwyhau manteision yr amgylchedd naturiol ac adeiledig er lles cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol	Meithrin adnoddau cynaliadwy	<p>Hyrwyddo amgylchedd Cymru a rheolaeth gynaliadwy adnoddau naturiol Cymru</p> <p>Sicrhau bod tir a dŵr yng Nghymru yn cael eu rheoli'n gynaliadwy ac mewn ffordd gyfannol</p> <p>Gwella gwytnwch ac ansawdd ein hecosystemau</p>		Mwyhau posibiliadau'n hadnoddau naturiol a diwylliannol i hyrwyddo iechyd corfforol a meddyliol a llesiant a chyfrannu at Gymru garbon isel ac amgylcheddol wydn		
Hwyluso gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd uchel, sy'n ymatebol ac wedi'u hintegreiddio'n wel, i'r rheiny sydd eu hangen fwyaf, gan alluogi dinasyddion i fod yn bartner cyfartal.		Ymgysylltu a chyfathrebu  Cryfhau partneriaethau		Parhau i integreiddio camau gweithredu gyda phartneriaid ehangach y sectorau cyhoeddus, annibynnol a gwirfoddol gyda'r nod o ddatblygu gwasanaethau system gyfan wedi'u symleiddio ar gyfer pobl sy'n defnyddio'n gwasanaethau a'r rheiny a gefnogant.		Sicrhau bod yr heddlu, partneriaid a'm swyddfa'n ymgysylltu gyda chymunedau i'w hannog, eu helpu a'u cefnogi i gydweithio i gadw'u hunain yn ddiogel.	Bod yn bartner o ddewis (Melin)
Gosod Cymru fel gwlad ryngwladol ffocysedig, yn wlad uchelgeisiol yn ymgysylltiedig ac mewn cyswllt â'r byd ehangach.					Cryfhau'n rôl mewn iechyd byd-eang a datblygu cynaliadwy, gan sylweddoli manteision ymgysylltiad rhyngwladol		

Sefydliadol:		Cofleidio technoleg	Datblygu Cyfoeth Naturiol Cymru i mewn i sefydliad rhagorol, yn cyflenwi gwasanaeth o'r radd flaenaf i gwsmeriaid.	<p>Cymell ymgysylltiad pobl sy'n defnyddio'n gwasanaethau a'r rheiny maent yn eu cefnogi, mewn penderfyniadau a berchenogir ar y cyd ynghylch eu hiechyd a'u cynlluniau gofal eu hunain, ac mewn cynllunio a gwerthuso gwasanaethau'n ehangach fel y gallwn ni, gyda'n partneriaid, wireddu canlyniadau sydd o'r pwys mwyaf i bobl.</p> <p>Sicrhau ein bod yn mwyafu defnydd effeithiol o adnoddau'r GIG i wireddu canlyniadau a gynlluniwyd ar gyfer gwasanaethau a chleifion, drwy gyfathrebu rhagorol, monitro a systemau tracio ym mhob maes clinigol.</p> <p>Datblygu'n staff i fod y gorau y gallant gyda lefelau uchel o lesiant cyflogeion ac, fel y cyflogwr mwyaf yng Ngwent, hyrwyddo gyrfaoedd y GIG a darparu cyfleoedd gwirfoddoli a phrofiad gwaith.</p>	Dylanwadu ar bolisi, cynllunio a dylunio i greu cymunedau cynaliadwy a chydlynus sy'n ffynnu'n ddiwylliannol, i fynd i'r afael â phenderfynyddion ehangach iechyd a thorri cylch tlodi ac anfantais	Sicrhau bod Heddlu Gwent a'm swyddfa innau yn sefydliadau uchel eu perfformiad, sy'n gwerthfawrogi ac yn buddsoddi yn ein staff i wireddu gwerth am arian wrth gyflenwi gwasanaethau clodwiw sy'n cwrdd ag anghenion ein holl gymunedau.	Cynyddu trosiant, cynnal cryfder ariannol, gwireddu arbedion (CTSF)  Bod yn lle hwyliog i weithio ynddo (Melin)
--------------	--	---------------------	--	---	---	--	---

# Cyfeirnodau

---

<sup>1</sup> <http://gov.wales/statistics-and-research/future-trends/?skip=1&lang=cy>

<sup>2</sup> 2015, Amcangyfrifon poblogaidd canol-blwyddyn, Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol, diweddarwyd 23 Mehefin 2016

<sup>3</sup> <http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/statutory-guidance/?skip=1&lang=cy>

<sup>4</sup>

<https://neighbourhood.statistics.gov.uk/HTMLDocs/nessgeography/superoutputareasexplained/output-areas-explained.htm>

<sup>5</sup> Cyfarwyddyd Statudol, RhPRhD 3 ar <http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/statutory-guidance/?skip=1&lang=cy>

<sup>6</sup> Paratoi cynlluniau llesiant lleol: Cyfarwyddyd ar gyfer ByGCau, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

<sup>7</sup> Confesiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plentyn <https://www.unicef.org.uk/what-we-do/un-convention-child-rights/>

<sup>8</sup> Deddf Cydraddoldeb 2010

<sup>9</sup> <http://www.designcouncil.org.uk/news-opinion/design-process-what-double-diamond>

<sup>10</sup> <http://www.designcouncil.org.uk/news-opinion/design-process-what-double-diamond>

---